

Diwygiedig 2018-2033 Cynllun Datblygu Lleol

Papur Pwnc Ffosfforws



Hydref 2023

Cynnwys

1. Cyflwyniad	Error! Bookmark not defined.
1.1. Diffinio'r Angen am Gyfathrebu ac Ymgysylltu.....	Error! Bookmark not defined.
Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi	9
2. Crynodeb o Ddalgylchoedd a Effeithir	Error! Bookmark not defined.
2.1. Afon Teifi	13
2.2. Afon Tywi.....	15
2.3. Afon Cleddau	18
3. Goblygiadau i'r CDLld.....	Error! Bookmark not defined.
3.1. Dyrannu Safleoedd	Error! Bookmark not defined.
3.2. Amcan o'r Gyllideb Maethynnau.....	Error! Bookmark not defined.
4. Camau a Gymerwyd yn Syth	Error! Bookmark not defined.
4.1. Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Gorllewin Cymru	Error! Bookmark not defined.
4.2. Canllawiau Technegol ar Liniaru Maethynnau.....	Error! Bookmark not defined.
4.3. Cynllun Gweithredu Interim a Chynllun Gweithredu	Error! Bookmark not defined.
4.4. Datganiad Tir Cyffredin.....	Error! Bookmark not defined.
4.5. Haen Risg Colli Maethynnau	Error! Bookmark not defined.
4.6. Defnyddio GIS i Adnabod Safleoedd ar gyfer Strategaethau Lliniaru	Error! Bookmark not defined.
5. Datrysiadau Ehangach ar gyfer Rheoli Maetholion.....	Error! Bookmark not defined.
5.5. Astudiaeth Masnachu Credydau Maethynnau	Error! Bookmark not defined.
6. Datganiad Clo	Error! Bookmark not defined.
7. Camau Nesaf	45
7.1. Ystyriaethau i'r Dyfodol.....	Error! Bookmark not defined.
8. Cyfeiriadau.....	Error! Bookmark not defined.

Byrfoddau

CDLI(d)	Cynllun Datblygu Lleol (diwygiedig) (a elwir hefyd y Cynllun)
CG	Cyfeirnod Gwelliant
PCBB	Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog
SMEBCA	Safle Morol Ewropeaidd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd
CSC	Cyngor Sir Caerfyrddin
LICUE	Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd
DCWW	Dŵr Cymru Welsh Water
RhRLIEA	Rheoli Risgiau Llifogydd ac Erydu Arfordirol
ARhC	Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd
CGI	Cynllun Gweithredu Interim
ACI	Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig
CBCN	Cyd Bwyllgor Cadwraeth Natur
EAT	Effaith Arwyddocaol Tebygol
ACLI(au)	Awdurdod(au) Cynllunio Lleol
BRHM	Bwrdd/Byrddau Rheoli Maetholion
NM	Niwtraliaeth Maethynnau
CNC	Cyfoeth Naturiol Cymru
Ff	Ffosforws
CRhPh	Cynlluniau, Rhaglenni a Phrosiectau
ACA(oedd)	Ardal(oedd) Cadwraeth Arbennig
SAGIS	System Priodoli Ffynhonnell Gwybodaeth Ddaearyddol
SAM	Methodoleg Asesu Safleoedd
CGS	Cyfeirnod Gwelliant Sylweddol
DTC	Datganiad Tir Cyffredin
CCNS	Corff Cadwraeth Natur Statudol
PS	Polisi Strategol
AGA(oedd)	Ardal(oedd) Gwarchodaeth Arbennig
CCA	Canllawiau Cynllunio Atodol
NCT	Nodyn/Nodiadau Cyngor Technegol
CFfD	Cyfeireb Fframwaith Dŵr
LIC	Llywodraeth Cymru
CRhAD	Cynllun Rheoli Adnoddau Dŵr
GTDG	Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff

Ffigurau

Ffigur 1: Dalgylch Afonol Afon Teifi.

Ffigur 2: Map o gydymffurfiaeth ffosfforws ar gyfer ACA Afon Teifi. Mae crynofeydd dŵr mewn gwyrdd yn pasio eu targed. Mae lliwiau eraill yn methu cyrraedd y targed ac mae lliwiau gwahanol yn darlunio maint y methiant mewn $\mu\text{g l}^{-1}$, a fynegir yn y mwyaf o'r cymedrau blynyddol a'r cymedrau tymor tyfu. Ni ellid asesu crynofeydd dŵr mewn llwyd oherwydd diffyg data.

Ffigur 3: Priodoliad ffosfforws yn ôl ffynhonnell ar y pwynt pellaf i lawr Afon Teifi. Sylwer fod categori 'Arall' yn cynnwys cyfraniad bras o ffynonellau tryledol o danciau trefol, diwydiannol a septig.

Ffigur 4: Dalgylch Afonol Afon Tywi.

Ffigur 5: Map o gydymffurfiaeth ffosfforws ar gyfer ACA Afon Tywi. Mae crynofeydd dŵr mewn gwyrdd yn pasio eu targed. Mae lliwiau eraill yn methu cyrraedd y targed ac mae lliwiau gwahanol yn darlunio maint y methiant mewn $\mu\text{g l}^{-1}$, a fynegir yn y mwyaf o'r cymedrau blynyddol a'r cymedrau tymor tyfu. Ni ellid asesu crynofeydd dŵr mewn llwyd oherwydd diffyg data.

Ffigur 6: Priodoliad ffosfforws yn ôl ffynhonnell ar y pwynt pellaf i lawr Afon Tywi. Sylwer fod categori 'Arall' yn cynnwys cyfraniad bras o ffynonellau tryledol o danciau trefol, diwydiannol a septig.

Ffigur 7: Map o Sir Gaerfyrddin. Mae'r ffin ar gyfer Awdurdod Cynllunio Lleol CSC yn eithrio'r ardal a amlygir yn felyn sy'n cynrychioli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Ffigur 8: Map yn dangos cyfleoedd gwlypdir a adeiladwyd ar Ddaliadau Tir y Cyngor.

Ffigur 9: Dewisiadau Lliniaru Maethynnau ar Ddaliadau Tir y Cyngor.

Ffigur 10: Haen Risg Colli Maethynnau Llangadog.

Ffigur 11: Haen Risg Colli Maethynnau Nantgaredig.

Ffigur 12: Cyfleoedd plannu coetiroedd torlannol CNC a chyfleoedd clustogfa dorlannol Arcadis (Lleoliad Llanarthne).

Ffigur 13: Yr un â Ffigur ond gan ychwanegu potensial dalgylch ehangach CNC ar gyfer plannu coetiroedd (Llanarthne).

Ffigur 14: Sut mae'r BRhMau yn rhyngweithio gyda'r GTY a'r Grŵp Rhanddeiliaid.

Ffigur 15: Digwyddiad Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru cyntaf erioed 21ain Mai 2023, Canolfan Halliwell, Caerfyrddin.

Tablau

Tabl 1: Canran dalgylch afonydd o fewn ardal yr ACLI ac a effeithir gan CDLld Sir Gaerfyrddin.

Tabl 2: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer Afon Teifi.

Tabl 3: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer Afon Tywi.

Tabl 4: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer darn Dwyreiniol Afon Cleddau.

Tabl 5: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer darn Gorllewinol Afon Cleddau.

Tabl 6: Safleoedd y CDLld a GTGD sy'n gwasanaethu Dalgylch Afonol Afon Teifi.

Tabl 7: Safleoedd y CDLld a GTGD sy'n gwasanaethu Dalgylch Afonol Afon Tywi.

Tabl 8: Amcan o'r Gyllideb Maethynnau ar gyfer cyflawni'r CDLld yn nalgylchoedd Afon Tywi ac Afon Teifi.

Tabl 9: Perfformiad presennol GTGD o gymharu â Hawlenni Amgylchedd CNC.

Tabl 10: Hierarchaeth Datrysiadau Lliniaru Maethynnau.

Crynodeb Gweithredol

Mae ffosfforws yn elfen sy'n hanfodol ar gyfer pob bywyd organig ar y Ddaear. Fodd bynnag, os oes gormodedd ohono yn ei amryfal ffurfiau cemegol, yn enwedig felly orthoffosffad, y cyfansoddyn mwyaf bioar-gael, gall fod yn andwyol i fywyd dyfrol¹. Dyma'r rheswm pam y cynhyrchwyd deddfwriaeth, canllawiau, ac ymchwil i helpu cydnabyddiaeth a chynnig cyfarwyddyd ar yr arferion rheoli gorau i osgoi maethynnau gormodol, ar ffurf ffosffad, rhag mynd i mewn i grynofeydd dŵr. Mae'r Datganiad Safbwynt hwn yn crynhoi'r gwaith a wnaed hyd yn hyn gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) a'i bartneriaid i ddeall y materion sy'n gysylltiedig â maethynnau gormodol o fewn dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) yr ACLI a'r teclynau a'r dystiolaeth a ddatblygwyd, yn enwedig felly pan mae'n sail i ddatblygiad a chyflawnadwyedd y CDLI Diwygiedig. Mae hefyd yn adnabod rhai o'r camau nesaf allweddol tra'n cydnabod fod yr ymateb yn iteriadol ac yn adlewyrchu cyd-destun a sail tystiolaeth newidiol ac esblygol.

Mae datblygu maethynnol-niwtral yn angenrheidiol ar gyfer cydymffurfio â Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau (a ddiwygiwyd yn 2017)², ac mae'n dangos na fydd datblygiadau newydd yn cael effaith andwyol ar integriti safleoedd yn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig Afon Cleddau (ACA), ACA Afon Teifi ac ACA Afon Gwy oherwydd cynnydd yn y llwyth ffosfforws oherwydd dŵr gwastraff ychwanegol a gynhyrchwyd gan ddatblygiadau newydd. Nid yw Afon Tywi yn methu cyrraedd targedau cydymffurfiaeth. Felly, o fewn dalgylch ACA Afon Tywi, mae ymagwedd hyblyg yn cael ei hystyried, sy'n golygu y bydd capasiti GTGD a reolir gan hawlenni a roddir gan y rheoleiddydd amgylcheddol CNC, yn penderfynu faint o ddatblygu a ganiateir. Hefyd, dylai camau lliniaru maethynnau geisio darparu buddion ehangach i'r dalgylch. Ceir rhagor o wybodaeth ynghylch adolygu hawlenni³ yn yr adroddiad hwn.

Mae cael tystiolaeth o niwtraliaeth faethynnol ar gyfer ffosfforws mewn dalgylchoedd ACA sy'n methu yn golygu cyfrifo cyfanswm cyllideb ffosfforws (CFf) trwy ddefnyddio Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Gorllewin Cymru⁴. Bydd angen lliniaru'r gyllideb a gyfrifwyd, a chofnodir camau i gefnogi hynny yn y Canllawiau Lliniaru⁵. Mae'r awdurdod wedi cydnabod yr angen i wneud penderfyniadau fesul dalgylch. Mae'r Awdurdod yn aelod o BRhM Afon Cleddau, a BRhM Afon Teifi, ac mae'n cadeirio BRhM Afon Tywi. Mae'r byrddau hyn yn gyfrifol am gynhyrchu Cynlluniau Rheoli Maetholion fesul dalgylch er mwyn ymateb i broblemau cymhleth gwella ansawdd dŵr a'r her y mae'r cyfyngiadau presennol yn ei chreu i ddatblygu ar hyn o bryd, yn enwedig felly dai cymdeithasol. Mae'r BRhM yn cynnig ffordd i

ACLLau gydweithio fesul dalgylch, yn seiliedig ar atebolrwydd democrataidd Awdurdodau Lleol.

Mae'r Papur Pwnc hwn yn adnabod gofynion deddfwriaeth a pholisi cenedlaethol ar liniaru maethynnau. Mae hefyd yn cyflwyno tystiolaeth ranbarthol, ynghyd â thystiolaeth leol. Dylid darllen y papur hwn ar y cyd ag Argraffiad 11⁶, Polisi Cynllunio Cymru Llywodraeth Cymru, Cynllun Gweithredu Afonydd Llywodraeth Cymru, organogram (gweler Atodiad A) a gweledigaeth a rennir y Gweinidog Newid Hinsawdd ar gyfer y BRhMau, Adolygiad Technegol Dewisiadau Lliniaru Maethynnau Cyngor Sir Caerfyrddin⁷, Canllawiau Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Cyngor Sir Caerfyrddin⁸, Cynllun Gweithredu Interim ar Niwtraliaeth Maethynnau Cyngor Sir Caerfyrddin, Strategaeth Rheoli Niwtraliaeth Maethynnau Cyngor Sir Caerfyrddin ac Astudiaeth Teifi. Dylid ei ddarllen hefyd gan gyfeirio at y gwaith ar draws dalgylchoedd a ffiniau a chydweithio sy'n cael ei wneud gan y Bwrdd Rheoli Maetholion ar gyfer Afon Teifi, Tywi a Cleddau yn ogystal â'r gwaith ehangach ar lefel genedlaethol.

Trwy goladu gwaith CSC hyd yn hyn, mae'r Papur Pwnc hwn yn cynnwys casgliad integredig o ddogfennau canllaw sy'n cadw at bolisi CCH4 yr 2il GDLI Adneuo. Wrth nodi'r polisi hwn, cydnabyddir y gall ei gynnwys fod yn amodol ar iteriad pellach fel rhan o ystyried ffosffadau fel rhan o'r Archwiliad yn Gyhoeddus.

1. Cyflwyniad

Mae'r Papur Pwnc hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd hyd yn hyn gan Gyngor Sir Gaerfyrddin wrth ymateb i'r canllawiau ffosfforws a gyhoeddwyd gan CNC ac fe'i paratowyd i gefnogi'r CDLI Diwygiedig. Mae cysylltiad allweddol rhwng rheoli maetholion â'r Argyfwng Hinsawdd a Natur sy'n gwaethygu'n gyson, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cymru (LIC) a CSC.⁹

Mae Sir Gaerfyrddin yn elwa o'i lleoliad yn Ne Orllewin Cymru sy'n gartref i nifer o safleoedd a ddynodwyd yn rhyngwladol¹⁰. Mae afonydd Sir Gaerfyrddin yn cefnogi ystod eang o gynefinoedd a rhywogaethau¹¹. Mae ansawdd y tirlun a'r amgylchedd naturiol yn deilwng o warchodaeth oherwydd ei harddwch cynhenid a'i werth yn gwneud Sir Gaerfyrddin yn lle deniadol i fyw, gweithio ac astudio ynddo. Mae pwysigrwydd rheoli mater rhwystro maethynnau gormodol rhag mynd i mewn i'n dyfrffyrdd yn cyfrannu at gyflawni Amcanion Llesiant¹², creu lleoedd¹³, rhoi sylw i ddyletswydd adran 6, cyflawni Gweledigaeth Un Sir Gâr¹⁴ fel y nodwyd yn y CDLI Diwygiedig a strategaeth ac amcanion strategol y Cynllun a chyrraedd statysau ansawdd dŵr ac ecolegol da¹⁵.

Mae gan reoli maethynnau oblygiadau y tu hwnt i'r CDLld. Ym mis Medi 2023, caiff 92 cais datblygu eu heffeithio gan ffosffadau a chaiff 73 cais datblygu eu heffeithio gan ffosffadau gan atal penderfyniad rhag cael ei wneud. Mewn dalgylchoedd ACA sy'n methu ni ellir caniatáu datblygiadau oni allant brofi niwtraliaeth maethynnau neu well. O'r 92 cais datblygu a effeithir gan ffosffadau, mae 63 yn ACA Afon Tywi, mae 28 yn ACA Afon Teifi SAC ac mae 1 yn ACA Afon Cleddau. Yng nghyd-destun y CDLI Diwygiedig bwriedir codi nifer o anheddau ar safleoedd a neilltuwyd ar gyfer datblygu preswyl o fewn y dalgylchoedd afonol a ddynodwyd.

1.1. Diffinio'r Angen am Gyfathrebu ac Ymgysylltu

Nid yw mater ffosfforws yn un y gellid ei reoli ar ei ben ei hun. Mae datblygiadau diweddar yng ngwyddor priodoli ffynonellau yn dangos fod llwythi llygryddion yn deillio o nifer fawr o ffynonellau mewn lleoliadau gwledig a threfol¹⁶. Mae maethynnau yn mynd i mewn i'n hafonydd arwyneb a dŵr daear o Weithfeydd Trin Gwastraff Dŵr (GTGD), Gorlifoedd Carthffosiaeth Gyfun (GCG), wrin a baw anifeiliaid mewn slyris ffermydd, gwrtaith amaethyddol, camgysylltiadau carthffosydd, tanciau septig, arllwysiadau preifat, a glanedyddion diwydiannol¹⁷. Mae'n dilyn felly fod y datrysiad yn galw am ymgysylltiad yr holl randdeiliaid sy'n gyfrifol am fewnbynau o'r fath a'r gymuned ehangach ynghyd â

chydweithio gan sawl sector¹⁸. Mae'r angen am gyfathrebu, cydweithio ac ymgysylltu effeithiol yn sylfaenol er mwyn deall a mynd i'r afael â'r materion sy'n gysylltiedig â ffosfforws mewn ACAoedd afonol a warchodir ac a effeithir ganddo¹⁹.

Mae llwyddiant strategaethau lliniaru yn dibynnu ar gael croes gydymffurfiaeth rhwng sefydliadau, ac ar osod nod clir y gall pawb perthnasol ei gyflawni. Golyga hynny fod rhaid cael gwared ag unrhyw ddatrysiadau biwrocataidd o'r brig i lawr a darparu ymagwedd holistaidd wedi'i phersonoleiddio at reoli ffosfforws yn Sir Gaerfyrddin; ni fydd dull un ateb i bawb yn gweithio. Mae'r datrysiad yn galw am fewnbwn gan arbenigwyr yn yr holl feysydd a effeithir. Gyda'n gilydd gallwn gyfaddawdu a bodloni anghenion rhanddeiliaid a chymunedau Sir Gaerfyrddin a effeithir gan fater ffosfforws tra ar yr un pryd yn gofalu am ein tirlun treftadol a hanesyddol, llesiant meddyliol y boblogaeth a mynd i'r afael â'r argyfwng hinsawdd a natur a gyhoeddwyd yn genedlaethol. Cydnabyddir fod rhaid cael ymateb ar y cyd a chydabod rolau ynghyd ag ymateb integredig, ac yn hynny o beth cyfeirir at waith y BRhMau. Cyfeirir hefyd at y Datganiad Tir Cyffredin (DTG) a baratowyd gyda phartneriaid ynghylch y CDLI Diwygiedig.

1.2 Cefndir Deddfwriaethol a Pholisi

Yn sgîl cyhoeddi canllawiau CNC ar lefelau ffosffad mewn ACAoedd afonol gwarchodedig mae Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC), wrth baratoi ei CDLI Diwygiedig wedi ceisio ymateb yn gadarnhaol a rhagweithiol trwy ddarparu tystiolaeth a pholisïau sy'n sicrhau y gellir ystyried y cynllun yn un cadarn a sicrhau cydymffurfiaeth â dyletswyddau statudol, a rhan o hynny yw'r papur pwnc hwn. Mae'r canllawiau hyn wedi golygu hefyd fod yr Awdurdod yn wynebu rhwystrau rhag gallu caniatáu ceisiadau cynllunio. Mae hynny'n rhannol oherwydd goblygiadau dyfarniad Llys Cyfiawnder yr Undeb Ewropeaidd (LICUE) a elwir yn 'Achos yr Iseldiroedd'²⁰. Arweiniodd y dyfarniad (2018) yn Llys Cyfiawnder Ewrop a alwyd yn 'Achos yr Iseldiroedd' neu 'Achosion Nitrogen yr Iseldiroedd'²¹ at newid yn y ffordd y gweithredir y Rheoliadau Cynefinoedd (a ddiwygiwyd yn 2017) ar gyfer cynlluniau neu brosiectau yn nalgylchoedd safleoedd a chanddynt Ddynodiadau Ewropeaidd (a elwir o hyn ymlaen yn safleoedd Ewropeaidd) sydd dan bwysau lefelau maethynnau oedd eisoes yn bod. Roedd Achos yr Iseldiroedd yn ymwneud ag effeithiau andwyol posib llwyth maethynnau o arferion amaethyddol yn yr Iseldiroedd ar safleoedd a chanddynt Ddynodiadau Ewropeaidd. Fodd bynnag, mae'r dehongliad cyfreithiol o Achos yr Iseldiroedd, a gyhoeddwyd gan y rheoleiddiwr amgylcheddol CNC, yn golygu erbyn hyn fod rhaid i awdurdodau cynllunio lleol

ystyried effeithiau cynlluniau a phrosiectau newydd all gynhyrchu mewnbynnau maethynol ychwanegol i safleoedd Ewropeaidd²².

Cafodd pump ACA afonol eu hadnabod yng Ngorllewin Cymru ac maent dan bwysau o grynodiadau maethynol uwch²³. Mae'r cyngor interim hwn yn rhwystr arwyddocaol sy'n atal cynghorau rhag penderfynu ceisiadau cynllunio newydd. Canfu Asesiad Cydymffurfiaeth o ACAoedd Afonydd Cymru (2021) CNC, o'r 107 o grynofeydd dŵr a aseswyd, fod 39% wedi pasio'r targedau newydd a bod 61% wedi methu²⁴. Efallai y bydd gan ddatblygiadau yn agos at yr afonydd hyn gapasiti cyfyngedig i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus ac mae'n rhaid dod o hyd i ddatrysiadau eraill fydd yn cwrdd â'r targedau newydd, naill ai trwy sicrhau niwtraliaeth faethynol neu well²⁵.

Ers cyhoeddi'r canllawiau, bu Cyngor Sir Caerfyrddin yn gweithio'n brysur gyda nifer o sefydliadau gan gynnwys CNC, Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW), Llywodraeth Cymru, awdurdodau lleol eraill yng Nghymru a Lloegr, grwpiau amgylcheddol, datblygwyr, y gymuned amaethyddol a rhanddeiliaid eraill i geisio dod o hyd i atebion fydd yn sicrhau nad yw cynigion datblygu yn cael effaith andwyol ar ansawdd dŵr mewn dalgylchoedd ACA afonol ond ein bod yn hytrach yn gweld iechyd ein hafonydd yn cael ei ddiogelu a'i adfer.

Caiff Afonydd Teifi, Tywi, Cleddau, Gwy a'r Wysg eu rheoleiddio o dan y WFD²⁶. Rhaid i'r pump gyflawni statws ecolegol Da o dan *Reoliadau'r Amgylchedd Dŵr (Y Gyfarwyddeb Fframwaith Dŵr) (Cymru a Lloegr) (2003, 2017) y DG*²⁷. Nid yw pob crynfa ddŵr yn cyflawni statws ecolegol angenrheidiol y WFD heddiw, ac mewn dalgylchoedd sy'n methu yn arbennig gallai'r statws presennol ddirywio trwy ychwanegu rhagor o faethynnau.

Mae Afonydd Teifi, Tywi, Cleddau, Gwy a'r Wysg yn safleoedd Ardal Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol Ardal Warchodaeth Arbennig (AWA). Mae'r dalgylchoedd hyn hefyd yn cynnwys Safle Warchodaeth Arbennig (AWA), Safleoedd Ramsar a Morol Ewropeaidd²⁸. Bydd angen i unrhyw newid cydsyniad allai gael ei ystyried yn angenrheidiol i ddarparu capasiti ar gyfer mwy o ddatblygu gael ei asesu o dan y Rheoliadau Cynefinoedd.

Ym mis Chwefror 2023, ymrwymodd Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) i fuddsoddi swm ychwanegol o £60m ar draws Cymru cyn diwedd 2025 i leihau ymhellach gyfraniad ffosfforws o arllwysiadau Gweithfeydd Trin Dŵr Gwastraff (GTDG). Mae hyn yn ychwanegol at fuddsoddiad cychwynnol o £100m i leihau ffosfforws yn eu Cynllun Rheoli Asedau cyfredol ar gyfer 2020- 2025 (AMP7).

Dilynodd y targedau cydymffurfiaeth diwygiedig hyn gan CNC dystiolaeth gan y Cyd Bwyllgor Cadwraeth Natur y gallai tywydd cynhesach a sychach, a broffwydwyd oherwydd newid hinsawdd, leihau llifoedd afonydd yn ystod yr haf a thrwy hynny gynyddu crynodiadau ffosffad²⁹. Byddai cael mwy o dywydd eithafol, megis digwyddiadau glawiad trwm, yn arwain at gynyddu dŵr ffo a thrwy hynny at fwy o ffosfforws yn ein dyfroedd. Mae'n seiliedig hefyd ar dystiolaeth newydd am effeithiau andwyol maethynnau gormodol ar ecosystemau dŵr a rhywogaethau. Roedd penderfyniad Cyngor Sir Caerfyrddin yn 2022 i gyhoeddi Argyfwng Natur yn rhannol yn gydnabyddiaeth o bwysigrwydd hynny³⁰.

2. Crynodeb o Ddalgyloedd a Effeithir

Mae cyfuniad y tri ACLI yn rhoi cyfanswm o 30 dyraniad safle (47% o CSC, 47% o CSCe a 6% o CSP) yn nalgylch afonol ACA Afon Teifi. Y gyllideb faethynnol gronnol ar gyfer CSC, CSCe a CSP ar gyfer lliniaru, yn seiliedig ar y terfyn stop cefn 5 mg/l P yw 487.51 kg CFF/blwyddyn. Byddai hyn yn caniatáu cyflwyno cyfanswm o 842 o unedau preswyl o'r CDLlau perthnasol (189 uned ar gyfer Sir Gaerfyrddin, 592 uned ar gyfer Ceredigion a 61 uned ar gyfer Sir Benfro). Dyraniadau tai yn CDLI Ceredigion yw'r gyfran fwyaf (64%) o gyfanswm y gyllideb faethynnol yn ACA Afon Teifi, ac yna Sir Gaerfyrddin (27%) a Sir Benfro (9%). Dylid nodi fod yr uchod yn cyfeirio at GDLI datblygol newydd Sir Gaerfyrddin a Sir Benfro ond mae cynllun Ceredigion yn un byw a fabwysiadwyd yn 2013.

Rhoddir ystyriaeth bellach i Afonydd Teifi, Tywi ac Afon Cleddau yn yr adran isod. Lleolir Afon Gwy i'r gogledd o'r ffin â Sir Gaerfyrddin, ac mae Afon Wysg i'r dwyrain o fewn Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog (PCBB) sef yr awdurdod cynllunio lleol ar gyfer ei hardal, gweler *Ffigur 7*. Cafodd y dalgyloedd ACA a effeithir gan daflwybr tai CDLId CSC eu mapio yn *Ffigur 1* a *Ffigur 4*. Nid yw Afon Cleddau, Afon Gwy ac Afon Wysg yn cael eu heffeithio gan y CDLId. Mae *Tabl 1* yn cyflwyno canran y dalgyloedd afonydd yn ardal yr ACLI ac a ydynt yn cael eu heffeithio gan y CDLId.

Dalgylch Afon	% o Ddalgyloch ACA yn ardal ACLI Sir Gaerfyrddin	Effeithir gan daflwybr tai CDLId CSC?
Afon Tywi	70.4	Ie
Afon Teifi	24.3	Ie
Afon Cleddau	0.9	Na
Afon Gwy	0.085	Na
Afon Wysg	N/A	Na

Tabl 1: Canran dalgyloch afonydd o fewn ardal yr ACLI ac a effeithir gan CDLId Sir Gaerfyrddin.

2.1. Afon Teifi

Mae Afon Teifi yn methu cyrraedd targedau cydymffurfio (*Ffigur 3*), ac mae 50% o grynofeydd dŵr yn nalgylch Afon Teifi yn pasio'r targedau cydymffurfio. Mae crynafa ddŵr Groes yn rhan uchaf Afon Teifi yn pasio ei thargedau ffosforws, ac mae'r rhan fwyaf o'r crynofeydd dŵr ACIf yn methu wrth i'r afon lifo drwy Sir Gaerfyrddin. Mae data priodoli ffynonellau yn *Ffigur 4* a *Thabl 2* yn dangos mai GTDG yw'r cyfrannwr mwyaf i orthoffosffad o fewn y grynafa ddŵr.

Mae safbwynt canllawiau cynllunio CNC a gwaith BRhMau yn ceisio sicrhau niwtraliaeth/gwelliant maethynol mewn cefnau deuddwr sy'n methu yn Nalgylch Afonol Afon Teifi. Mae DTC yn amlinellu ymagwedd gydweithiol awdurdodau Gorllewin Cymru a phartneriaid eraill ar sut fydd llwyth maethynol mewn crynofeydd dŵr yn cael ei reoli ar draws ffiniau sirol. Atgyfnerthir hynny drwy'r gwaith gydweithiol a wneir gan y BRhMau.

Bydd y gwelliannau i'r capasiti gwared ffosforws a drefnwyd o dan AMP7 yn GTDG DCWW yn Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder yn cefnogi'r gwaith o alluogi datblygiadau o fewn y CDLld yn eu maes gwasanaeth. Y dyddiad cwblhau ar gyfer uwcARhCddio seilwaith GTGD yw mis Mawrth 2025. Oherwydd y buddsoddiad arfaethedig hwn gellir sicrhau nifer o ddyraniadau tai ymhob anheddiad o dan amodau Grampian. Mae hyn yn cyfateb i 30 annedd yng Nghwm-ann a wasanaethir gan GTDG Llanbedr Pont Steffan a 10 annedd a wasanaethir gan GTDG Llanybydder.



Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda DCWW a CNC i geisio sicrhau rhagor o welliannau seilwaith ac unrhyw fwiad i adolygu hawlenni yn nalgylch Afon Teifi a chanllawiau CNC i Awdurdodau Cynllunio wrth iddynt esblygu³¹. Bydd hyn ynghyd ag unrhyw newidiadau eraill yn ein safbwynt yn rhan o unrhyw iteriadau eraill o'r papur hwn i'r dyfodol, gan gynnwys unrhyw wybodaeth am oblygiadau'r Adolygiad o Hawlenni o ran GTDG yn nalgylch Afon Teifi. Wrth i broses yr Adolygiad o Hawlenni yn cynhyrchu terfynau stop cefn newydd efallai na fydd angen niwtraliaeth ymhob cefnau deuddwr ac o'r herwydd gellir gwneud penderfyniadau ar ddatblygiadau.

Ffynhonnell	Llwyth Ffosforws (%)	Crynodiad Ffosforws (%)
Defnydd o Dir Gwledig	30	Amherthnasol
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	66	61
Gorlifoedd Stormydd	3	Amherthnasol

Arall	1	Amherthnasol
-------	---	--------------


Tabl 2: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer Afon Teifi.

Ffigur 1: Dalgylch Afonol Afon Teifi.



Ffigur 2: Map o gydymffurfiaeth ffosfforws ar gyfer ACA Afon Teifi. Mae crynofeydd dŵr mewn gwyrdd yn pasio eu targed. Mae lliwiau eraill yn methu cyrraedd y targed ac mae lliwiau gwahanol yn darlunio maint y methiant mewn $\mu\text{g l}^{-1}$, a fynegir yn y mwyaf o'r cymedrau blyneddol a'r cymedrau tymor tyfu. Ni ellid asesu crynofeydd dŵr mewn llwyd oherwydd diffyg data.

Ffigur 3: Priodoliad ffosfforws yn ôl ffynhonnell ar y pwynt pellaf i lawr Afon Teifi. Sylwer fod categori 'Arall' yn cynnwys cyfraniad bras o ffynonellau tryledol o danciau trefol, diwydiannol a seiptig.



2.2. Afon Tywi

Dywed Asesiad Cydymffurfiaeth CNC o ACAoedd Afonydd Cymru yn erbyn Targedau Ffosfforws nad

oes unrhyw fethiannau ffosfforws yn Nalgylch ACA Afon Tywi. Fodd bynnag, nid oes llawer o hyblygrwydd. Wedi cyhoeddi Adolygiad Hawlenni CNC, mae gan GTDG yn nalgylch ACA Afon Tywi a'r rhai sy'n draenio i mewn i ddalgylch yr ACA gapasiti i gymryd datblygiadau cyfyngedig. Gall hynny fod yn ddigon i ddarparu ar gyfer a chefnogi'r gwaith o sicrhau dyraniadau'r CDLI, ond mater i'r ACLI fydd penderfynu a mabwysiadu ymagwedd bolisi sy'n galluogi blaenoriaethu effeithiol o fewn yr hyblygrwydd hwn i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r CDLI Diwygiedig.

Yng ngoleuni'r dull hyblyg hwn o weithio, ni fydd rhaid i geisiadau cynllunio sy'n cysylltu â'r brif garthffos brofi niwtraliaeth faethynnol neu well. Pwysleisir mai hyn a hyn o hyblygrwydd sydd ar gael, a bod pendraw i'r terfyn hawlenni a roddir gan y rheoleiddiwr amgylcheddol CNC ar GTDG DCWW. Unwaith y cyrhaeddir terfyn hawlenni ar gyfer GTDG penodol defnyddir trefn niwtraliaeth / gwelliant maethynnol ar gyfer unrhyw ddatblygiadau eraill. Wrth weithredu'r dull hyblyg o weithio, bydd yr ACLI yn monitro caniatadau cynllunio yn ofalus i sicrhau na eir heibio faint o hyblygrwydd sy'n bosib ac nad oes unrhyw ddirywiad pellach yng nghapasiti amgylcheddol Afon Tywi. Rhagwelir y bydd monitro'n digwydd trwy system ar-lein ar gyfer olrhain caniatadau cynllunio, data ansawdd dŵr DCWW a CNC a samplu dŵr/monitro ansawdd dŵr gan yr ALI. Bydd y trefniadau monitro hyn yn cael eu datblygu'n barhaus.

Hyd yn hyn derbyniodd 3 GTDG yn nalgylch Afon Tywi hawlenni amgylcheddol diwygiedig. Mae'r rhain yn cynnwys GTDG Llanymddyfri (5mg/l), GTDG Llangadog (5mg/l) a GTDG


Nantgaredig a Phontargothi (5mg/l). Ar hyn o bryd mae'r gweithfeydd trin hyn yn gweithredu o fewn y capasiti i ddarparu ar gyfer rhagor o unedau tai fyddai'n arwain at fwy o ddŵr gwastraff. O fewn y capasiti hwn, a bennir gan asesiad DCWW o'r hyblygrwydd sydd ar gael fel rhan o broses cynhyrchu'r Cynllun, y caniateir datblygiadau.

Gellir priodoli'r prif gyfrannwr i faethynnau gormodol yn ACA Afon Tywi i'r sector defnydd tir gwledig³². Nid cyfyngu datblygiadau yw'r prif ddull o rwystro maethynnau gormodol rhag mynd i mewn i ddalgylch ACA Afon Tywi. Mae'n hollbwysig ceisio dod o hyd i gydbwysedd rhwng anghenion cymdeithasol ac economaidd y sir a'r cyflwr ecolegol ac ansawdd dŵr, er gwaethaf effaith newid hinsawdd ar Ddalgylch Afonol Afon Tywi. Yn seiliedig ar y dystiolaeth orau sydd ar gael, daethom i'r casgliad mai hwn yw'r dewis gorau i Sir Gaerfyrddin a'i chymunedau.


O dan adran 6 Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016, rhaid i bob awdurdod cyhoeddus yng Nghymru gynnal a gwella bioamrywiaeth a hyrwyddo gwytnwch ecosystemau³³. Nid yw ymagwedd hyblyg o fewn ACA Afonol Afon Tywi yn diystyru unrhyw gyfle i weithredu Datrysiadau Seiliedig ar Natur (DSN) sy'n helpu diogelu ansawdd dŵr ac ecosystemau dyfrol a chefnogi'r gwaith o sicrhau twf priodol a nodwyd yn y CDLld. Yr ateb mwyaf llesol i'r amgylchedd lleol ac amgylchedd Sir Gaerfyrddin yw bod yr ALI yn parhau i chwilio am Ddewisiadau Clustogfeydd Gwlypdir a Glannau Afonydd o fewn y dalgylch. Mae'r ALI yn parhau i gyfrannu, trwy Fyrddau Rheoli Maetholion Afon Tywi, Afon Teifi ac Afon Cleddau, at drafodaethau adeiladol gydag Undeb Cenedlaethol y Ffermwyr (NFU), Undeb Amaethwyr Cymru (FUW), a rhanddeiliaid eraill o'r sector defnydd tir gwledig. Cyhoeddodd Llywodraeth Cymru Gynllun Cyd-gynllunio Ffermio Cynaliadwy Cymru sy'n cynnwys cynigion amlinellol ar gyfer 2025³⁴. Cyhoeddwyd Rheoliadau Llygredd Amaethyddol (2021)³⁵ i fynd i'r afael â llygredd amaethyddol ar draws Cymru, ac mae hyn yn cynnwys maethynnau gormodol. Mae'r awdurdod yn cydnabod fod cyfle i gael gwell rheolaeth ar faethynnau o fewn y sector defnydd tir gwledig. I'r perwyl hwnnw, rydym yn ymgysylltu (gan gynnwys trwy waith y BRhM) gyda'r sector defnydd tir gwledig i gael gwell dealltwriaeth o'r ffactorau sy'n atal cael gwell rheolaeth ar faethynnau ac i chwilio am ddatrysiadau posib³⁶.

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gyda DCWW a CNC i geisio sicrhau rhagor o welliannau seilwaith ac unrhyw fwriad i adolygu hawlenni yn nalgylch Afon Tywi. Bydd hyn


ynghyd ag unrhyw newidiadau eraill yn ein safbwynt yn rhan o unrhyw iteriadau eraill o'r papur hwn i'r dyfodol.



Ffigur 4: Dalgylch Afonol Afon Tywi.



Ffigur 5: Map o gydymffurfiaeth ffosfforws ar gyfer ACA Afon Tywi. Mae crynofeydd dŵr mewn gwyrdd yn pasio eu targed. Mae lliwiau eraill yn methu cyrraedd y targed ac mae lliwiau gwahanol yn darlunio maint y methiant mewn $\mu\text{g l}^{-1}$, a fynegir yn y mwyaf o'r cymedrau blyneddol a'r cymedrau tymor tyfu. Ni ellid asesu crynofeydd dŵr mewn llwyd oherwydd diffyg data.



Ffigur 6: Priodoliad ffosfforws yn ôl ffynhonnell ar y pwynt pellaf i lawr Afon Tywi. Sylwer fod categori 'Arall' yn cynnwys cyfraniad bras o ffynonellau tryledol o danciau trefol, diwydiannol a septig.

Ffynhonnell	Llwyth Ffosfforws (%)	Crynodiad Ffosfforws (%)
Defnydd o Dir Gwledig	86	73
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	11	22
Gorlifoedd Stormydd	1	Amherthnasol
Arall	2	Amherthnasol

Tabl 3: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer Afon Tywi.

2.3. Afon Cleddau

Er na fydd unrhyw gynigion yn y CDLld yn effeithio ACA Afon Cleddau, mae'r ALI yn edrych ar gyfleoedd i liniaru a rheoli maetholion er mwyn cyfyngu ar unrhyw effeithiau andwyol pellach ar yr ACA. Gwneir hyn trwy'r BRhMau a Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru yn ogystal ag ymgysylltu ystyrlon ar draws ffiniau.

Ffynhonnell	Llwyth Ffosfforws (%)	Crynodiad Ffosfforws (%)
Defnydd o Dir Gwledig	84	Amherthnasol
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	11	8
Gorlifoedd Stormydd	2	Amherthnasol
Arall	3	Amherthnasol

Tabl 4: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer rhan Ddwyreiniol Afon Cleddau.


Ffynhonnell	Llwyth Ffosfforws (%)	Crynodiad Ffosfforws (%)
Defnydd o Dir Gwledig	65	Amherthnasol
Gwaith Trin Dŵr Gwastraff	22	19
Gorlifoedd Stormydd	5	Amherthnasol
Arall	8	Amherthnasol

Tabl 5: Data Priodoli Ffynhonnell a gynhyrchwyd gan DCWW ar gyfer rhan Orllewinol Afon Cleddau.

3. Goblygiadau i'r CDLld

Wedi cyhoeddi canllawiau CNC ar lefelau ffosffad mewn ACAoedd afonol gwarchodedig penderfynwyd y dylid atal y gwaith o baratoi'r CDLI Diwygiedig er mwyn deall goblygiadau cadernid y Cynllun a'r gwaith oedd ei angen er mwyn gallu symud ymlaen i'w baratoi. Cyflwynwyd adroddiad i gyfarfod o'r Cyngor Sir ar y 9fed Mawrth 2022. Roedd yr adroddiad yn ceisio amlinellu'r camau nesaf wrth ddatblygu'r cynllun, gan gynnwys paratoi ail GDLI Adneuo Diwygiedig³⁷³⁸. Roedd yr adroddiad hwn yn darparu datganiad safbwynt ar effaith ffosffadau ar baratoi'r CDLI ac arfarniad o'r dewisiadau ar gyfer y camau nesaf, ynghyd â'r dulliau a nodwyd ar gyfer mynd i'r afael â'r effeithiau yn deillio o ganllawiau CNC.

Cyhoeddodd CNC 'gyngor cynllunio interim' i osgoi dirywiad pellach yng nghapasiti amgylcheddol dalgylchoedd ACA afonol sy'n methu cyrraedd targedau cydymffurfiaeth³⁹. Mae'r cyngor hwn ac iteriadau dilynol yn berthnasol i bob ACA Afonol y mae eu dalgylchoedd yn ymestyn i mewn i Sir Gaerfyrddin. Fel yr ACLI, mae'n rhaid i CSC ddefnyddio'r cyngor hwn wrth wneud penderfyniadau cynllunio, ar gyfer datblygiadau unigol a'r CDLld. O'r herwydd, bydd rhaid i unrhyw ddatblygiadau arfaethedig yn nalgylchoedd ACA afonydd Teifi ac Afon Cleddau ddangos tystiolaeth glir na fydd y datblygiad yn cyfrannu at unrhyw faethynnau ychwanegol yn y grynfa ddŵr trwy sicrhau niwtraliaeth faethynnol neu well yn ei ddyluniad. Pan mae capasiti cyfyngedig i gysylltu â'r system garthffosiaeth gyhoeddus, bydd rhaid dod o hyd i ddatrysiad arall e.e., tanc septig, cyfleuster triniaeth becyn. Mae'r angen hwn yn berthnasol i unrhyw ddatblygiad sy'n cynyddu cyfanswm dŵr gwastraff a thrwy hynny lwyth maethynnol. Ceir map yn dangos ardal dalgylch ACA yr afonydd yn Sir Gaerfyrddin yn Ffigur 1.



Ffigur 7. Map Sir Gaerfyrddin. Nid yw ffin Awdurdod Cynllunio Lleol CSC yn cynnwys yr ardal a amlygir mewn melyn sy'n cynrychioli Awdurdod Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog.

Mae crynodeb anghynhwysol o'r prif oblygiadau o ran datblygu'r 2il GDLld Adneuo yn cynnwys:

- Mae tua hanner ardal yr ACLI yn effeithio dalgylchoedd ACA ffosfforws sensitif (48%, wedi'u rhannu rhwng Dalgylchoedd Afon 4 ACA cyfanswm ~102074 hectar);
- Allan o'r 887 safle posib a gyflwynwyd yn ystod yr alwad am safleoedd ymgeisiol, mae 20.3% o fewn yr ardal hon (cyfanswm o 180);
- Mae'n cwmpasu 28% o Ganolfannau Gwasanaethau (Haen 2) a 46% o Bentreffi Cynaliadwy (Haen 3) a fwriadwyd o dan *SP3: Fframwaith Aneddiadau*;
- Mae'n effeithio'n bennaf ar 30 datblygiad tai a fwriadwyd o dan HOM1 (18 yn nalgylch Afon Teifi a 12 yn nalgylch Afon Tywi). Mae hyn yn cyfateb i 446 o unedau preswyl, ac mae disgwyl y bydd mwy nag 80 ohonynt yn dai fforddiadwy.
- Mae'n effeithio 3 o'r 6 Canol Tref Dosbarth Is a fwriadwyd o dan *SP2: Canolfannau Manwerthu a Chanol Trefi* (h.y., Llandeilo, Llanymddyfri, a Chastell Newydd Emlyn).
- Roedd angen diweddariadau arwyddocaol i'r ARhC a'r ACI ategol er mwyn ystyried goblygiadau cymdeithasol, economaidd, ac amgylcheddol mewnbyn ffosffad ychwanegol. Yng ngoleuni Canllawiau CNC ar gyfer Awdurdodau Cynllunio cafodd y CDLld ei sgrinio i benderfynu a yw unrhyw bolisiâu yn debygol o gael effaith arwyddocaol ar ACAoedd yr afonydd.

3.1. Dyrannu Safleoedd

O fewn dalgylchoedd draenio Afon Teifi ac Afon Tywi, nodwyd y gallai 30 safle effeithio ar yr ACAoedd hyn:

- 18 yn Afon Teifi; a
- 12 yn Afon Tywi

Ni welwyd unrhyw safleoedd allai effeithio ACAoedd Afon Cleddau, Afon Wysg ac Afon Gwy.

O fewn Dalgylch ACA Afon Teifi, mae 218 o unedau preswyl, ac mae 172 ohonynt yn ddyraniadau a 46 yn ymrwymadau (Tabl 6):

Statws	Cyfeirnod	Enw'r Safle	Unedau Preswyl	GTDG sy'n gwasanaethu
Dyraniad	SuV38/h1	Maes y Bryn	6	Capel Iwan
	SuV37/h3	Tir gerllaw Lleinau	10	Llanbedr Pont Steffan
	SuV37/h2	Tir i'r de o Cae Coedmor	20	Llanbedr Pont Steffan
	SuV39/h1	Gerllaw Yr Hendre	7	Llanfihangel-ar-arth
	SuV33/h1	Tir gyferbyn â Brogeler	5	Drefach/Felindre
	SuV36/h2	Tir ym Mryndulais	16	(dim prif garthffos)
	SuV36/h1	Cae Pensarn Helen	6	(dim prif garthffos)
	SeC13/h1	Gerllaw Y Neuadd	10	Llanybydder
	SuV43/h1*	Blossom Inn*	5	Llandysul
	SeC12/h1	Trem Y Ddol	17	Adpar
	SeC12/h3	Tir y tu cefn i Dolcoed	20	Adpar
	SeC14/h2	Tir gerllaw Maescader	24	Pencader
	SeC14/h1	Blossom Garage	20	Pencader
	SuV35/h1	Tir gerllaw Arwynfa	6	Drefach/Felindre
Ymrwymiad	SeC13/h4	Bro Einon	9	Llanybydder
	SuV43/h1*	Blossom Inn*	3	Llandysul
	SeC12/h2	Heol Dewi	14	Castellnewydd Emlyn
	SuV41/h2	Cilgwyn Bach	14	Llandysul
	SuV32/h1	Gyferbyn â Springfield	6	Amherthnasol

Tabl 6: Safleoedd yn y CDLId a GTDG gwasanaethol yn Nalgylch Afonol Afon Teifi.

Yn Nalgylch ACA Afon Tywi mae 228 o unedau preswyl, ac mae 104 ohonynt yn ddyraniadau a 124 yn ymrwymadau (Tabl 7).

Statws	Cyfeirnod	Enw'r Safle	Unedau Preswyl	GTDG sy'n gwasanaethu
Dyraniad	SuV16/h1*	Heol Llwynddewi	2	Amherthnasol
	SuV51/h1	Tir gyferbyn â Neuadd y Pentref	8	Cwm Ifor
	SeC16/h1	Ardal Ogleddol Llandeilo	27	Ffair-fach
	SeC15/h2	Tir gerllaw Bryndeilog, Tywi Avenue	8	Llanymdyfri
	SeC17/h1	Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llangadog	16	Llangadog
	SeC17/h2	Tir oddi ar Heol Pendref	8	Llangadog
	SuV17/h1	I'r cefn o'r hen waith saer, Heol yr Orsaf	35	Nantgaredig
Ymrwymiad	SuV16/h1*	Heol Llwynddewi	6	Amherthnasol
	SuV15/h1	Ysgol Llanarthne	8	Llanarthne
	SeC15/h1	Tir i'r gogledd o Dan Y Crug	61	Llanymdyfri
	SuV49/h1	Awel Y Mynydd	13	Amherthnasol
	SeC17/h3	Ger yr Ysgol	21	Llangadog
	SuV18/h1	Tir oddi ar yr A40, Pontargoithi	15	Pontargoithi

Y m r w y m i a d	

Tabl 7: Safleoedd yn y CDLId a GTDG gwasanaethol yn Nalgylch Afonol Afon Tywi.

3.2. Amcan o'r Gyllideb Maethynnau

Statws	Cyfeirnod	Enw'r Safle	Cam 1 (Kg CFF/Blwyddyn)	Cam 2 (Kg CFF/Blwyddyn)	Cam 3 (Kg CFF/Blwyddyn)	Cam 4 (Kg CFF/Blwyddyn)
Dyraniad	SuV16/h1*	Heol Llwynddewi	1.96	1.18	1.63	2.89
	SuV51/h1	Tir gyferbyn â Neuadd y Pentref	4.03	0.12	1.29	6.24
	SeC16/h1	Ardal Ogleddol Llandeilo	13.61	2.99	4.37	17.99
	SeC15/h2	Tir gerllaw Bryndeilog, Rhodfa Tywi	4.03	1.62	3.09	6.60
	SeC17/h1	Tir gyferbyn ag Ysgol Gynradd Llangadog	8.06	0.26	1.55	11.23
	SeC17/h2	Tir oddi ar Heol Pendref	4.03	0.71	1.05	5.24
	SuV17/h1	I'r cefn o'r hen Waith saer, Heol yr Orsaf	17.64	0.37	3.75	25.23

Tabl 8: Cyfrifiad y Gyllideb Faethynnol ar gyfer pob safle a ddyrannwyd yn Nalgylch Afon Tywi.

Statws	Cyfeirnod	Enw'r Safle	Cam 1 (Kg CFF/Llwyth)	Cam 2 (Kg CFF/Llwyth)	Cam 3 (Kg CFF/Llwyth)	Cam 4 (Kg CFF/Llwyth)
Dyraniad	SuV38/h1	Maes y Bryn	3.02	0.42	1.94	5.46
	SuV37/h3	Tir gerllaw Lleinau	0.50	0.93	1.30	1.05
	SuV37/h2	Tir i'r de o Cae Coedmor	1.01	1.32	2.34	2.44
	SuV39/h1	Gerllaw Yr Hendre	3.53	0.90	1.52	4.98
	SuV33/h1	Tir gyferbyn Brogeler	4.03	0.07	0.72	5.62
	SuV36/h2	Tir ym Mryndulais	8.06	0.18	1.84	11.67
	SuV36/h1	Cae Pensarn Helen	3.02	0.09	1.05	4.78
	SeC13/h1	Gerllaw Y Neuadd	2.52	0.01	1.31	4.58
	SuV43/h1*	Blossom Inn*	2.42	0.18	1.78	4.83
	SeC12/h1	Trem Y Ddol	8.57	0.16	2.07	12.57
	SeC12/h3	Tir i'r cefn o Dolcoed	10.08	0.28	2.82	15.15
	SeC14/h2	Tir gerllaw Maescader	12.10	0.19	2.28	17.02
	SeC14/h1	Blossom Garage	10.08	0.50	1.82	13.68
	SuV35/h1	Tir gerllaw Arwynfa	3.02	0.45	6.50	10.88

Tabl 9: Cyfrifiad y Gyllideb Faethynnol ar gyfer pob safle a ddyrannwyd yn Nalgylch Afon Teifi.

Cynhaliwyd adolygiad o CDLliao Cynghorau cyfagos i weld beth oedd y potensial y gallai eu Dyraniadau Safleoedd effeithio ACAoedd Afon Teifi ac Afon Tywi. Yr unig GDLliao a chanddynt y potensial i effeithio unrhyw un o'r dalgylchoedd ACA hyn oedd y rhai yng Ngheredigion a Sir Benfro ac o ran ACA Afon Teifi. Lleolir rhannau gorllewinol PCBB o fewn ffiniau Sir Gaerfyrddin, ond nid yw'r CDLId a aseswyd yn berthnasol i'r ardal hon (~230 km²) gan ei bod yn gyfrifoldeb ACLI arall. Er y cychwynwyd ar y gwaith paratoi yn 2017, bu'n

rhaid i Awdurdod PCBB atal y gwaith o gynhyrchu ei GDLld. Adeg cyhoeddi'r adroddiad hwn, nid oes unrhyw Gytundeb Cyflawni wedi'i ddiweddararu ar gael ac mae'r CDLI cyfredol a fabwysiadwyd ar waith o hyd. O'r wybodaeth sydd ar gael ar-lein, nid oes unrhyw ddyraniadau arfaethedig fyddai o fewn ffiniau'r Sir nag o fewn dalgylch sensitif Tywi Ff a rennir, ac o'r herwydd nid oes angen asesiad mewn-cyfuniad.

Dalgylch	Cyfanswm y Gyllideb Faethynol (KgCFF/Blwyddyn)	Cyfanswm y Gyllideb Faethynol (KgCFF/Blwyddyn) +20% clustogfa ragofalol
Tywi	63.09	75.7
Teifi	105.38	126.4
Cyfanswm y CDLld	168.47	202.1

Tabl 10: Cyfrifiad Cyfanswm y Gyllideb Faethynol a gynhyrchir trwy gyflawni'r CDLld.

Y gyllideb faethynol a gynhyrchwyd gan y CDLld yw 202.1Kg o Gyfanswm Ffosfforws y flwyddyn (*Tabl 10*) ac mae'r gyllideb hon yn cynnwys clustogfa ragofalol o 20%. Cafodd y gyllideb faethynol ei hail-gyfrifo ers cyhoeddi'r CGI ac mae adran 3.6 atodiad C yr ARhC yn diweddarau manylion y safle.

Mae Tabl 7 yn cyfeirio at y GTDGydd sy'n gwasanaethau'r dyraniad safleoedd yn y CDLld yn nalgylch afonol Afon Tywi. Mae Tabl 9 yn cynnwys perfformiad Ff presennol GTDGydd o'r fath, a'u hawlenni amgylcheddol. O fewn Dalgylch Afon Tywi, mae Llanymddyfri, Llangadog, Nantgaredig a Phontargothi wedi derbyn eu hawlenni amgylcheddol wedi'u diweddarau, gyda therfyn stop cefn o 5mg/l. O ystyried perfformiad presennol y gweithfeydd triniaeth dan sylw, mae capasiti i dderbyn y datblygiad a fwriedir yn y CDLld. Mae digon o hyblygrwydd yn y GTDGydd hyn i brosesu cyllidebau maethynol dyraniadau SeC15/h2, SeC17/h1, SeC17/h2 ac SuV17/h1. Ar yr amod fod GTDGydd DCWW yn aros o fewn y terfyn arllwys a ganiateir yn yr hawlen, mae risg methu cydymffurfio ACA Afon Tywi oherwydd y cyflawnir CDLld Sir Gaerfyrddin yn isel.

Caiff Safle SeC16/h1 ei wasanaethu gan GTDG Ffairfach a safle SuV51/h1 gan GTDG Cwmifor. Ar hyn o bryd, nid oes hawlen amgylcheddol a ddiweddarwyd ar gyfer gweithfeydd trin Ffair-fach a Chwmifor. Mae proses adolygu Hawlenni yn mynd yn ei blaen trwy ddiweddariadau achlysurol a darparu hawlenni – bydd wedi'i chwblhau erbyn haf 2024. Ar

gyfer GTDG Cwmifor nid oes unrhyw hyblygrwydd ffosffad ar hyn o bryd i ganiatáu rhagor o ddatblygu. Dylid nodi'r pwyntiau canlynol:

- Rhestrwyd GTDG Ffair-fach a Chwmifor gan DCWW yn Gategori B1. Golyga hynny fod cydweithio'n bosib ar gyfer gwaredu rhagor o Ff yn seiliedig ar berfformiad presennol y GTDG a'r buddsoddiad sydd ei angen gan DCWW i'r dyfodol.
- Mae adroddiad cydymffurfiaeth CNC yn dangos nad yw dalgylch ACA Afon Tywi yn methu cyrraedd targedau, mae'r ACA yn pasio dangosyddion a thargedau cydymffurfiaeth. Mae peth hyblygrwydd ar gyfer cynyddu'r llwyth maethynnol.
- Mae adroddiad priodoli ffynhonnell DCWW ar ddalgylch ACA Afon Tywi yn dangos mai'r cyfrannwr mwyaf o ffosfforws yw ddefnydd tir gwledig; gellir priodoli 86% o gyfanswm y llwyth ffosfforws yn nalgylch Afon Tywi i ddefnydd tir gwledig. Cafodd yr adroddiad a'r model sy'n asesu ffynonellau ffosfforws yn y dalgylch eu cymeradwyo gan y rheoleiddiwr amgylcheddol CNC.
- O ystyried ymagwedd 'cyfran deg' CNC, mae er lles yr ACA a thrigolion Sir Gaerfyrddin fod yr Awdurdod Lleol yn canolbwyntio ar sicrhau'r lliniaru maethynnol mwyaf posib ar dir gwledig ac amaethyddol ac nid ar rwystro datblygu tai hanfodol, yn enwedig pan mae cyfraniad maethynnau o ddŵr gwastraff yn lleiafrif o gyfanswm y ffracsiwn ffosfforws yn y dalgylch.
- Mae'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n agos â BRhM Afon Tywi sy'n ceisio sicrhau gwelliannau amgylcheddol ehangach ar Afon Tywi, ei his-afonydd a'r tir sy'n draenio'r dalgylch.

Mae Tabl 6 yn cyfeirio at y GTDGydd sy'n gwasanaethu Dyraniadau Safleoedd y CDLId yn nalgylch Afonol Afon Teifi. Mae Tabl 9 yn cynnwys perfformiad Ff presennol GTDGydd o'r fath a'u hawlenni amgylcheddol. Mae'r uwchraddiad seilwaith AMP7 a drefnwyd wedi golygu y bydd GTDG Llanbedr Pont Steffan a Llanybydder yn gweithredu ar derfyn arllwys CFF o 2.5 a 0.5 mg/l yn eu tro. Nid oes unrhyw GTDGydd eraill wedi derbyn unrhyw hawlenni amgylcheddol wedi'u diweddarau. Wrth i raglen fuddsoddi AMP DCWW ac adolygiad hawlenni CNC ddigwydd, mae'n debygol y bydd hynny'n chwarae rhan arwyddocaol yn lleihau'r gyllideb faethynnol gyffredinol y mae angen ei lliniaru er mwyn cyflawni'r CDLlau. Gosodwyd terfyn stop cefn o 5 mg/l ar hawlenni amgylcheddol GTDG lle na fu rhai yn y gorffennol. Mae hyn yn berthnasol i GTDG ag iddynt lif tywydd sych (LITS) o >20m³ y dydd. Gan yr uwchraddiwyd seilwaith y safleoedd yn nalgylch Afon Teifi, gellir sicrhau caniatâd cynllunio o dan amodau Grampian.

O ran cyflawni'r CDLId yn GTDG Llanybydder a Llanbedr Pont Steffan, gellid sicrhau amodau Grampian gan ddilyn cyngor CNC, yn unol â buddsoddiad AMP7 DCWW yn y gweithfeydd hyn. Yn ôl data perfformiad GTDGydd DCWW, mae'r rhain yn nalgylchoedd Afon Tywi ac Afon Teifi yn gweithredu o dan y terfyn stop cefn 5mg/l, a phe baent yn cael hawlen 5mg/l, gallent gymryd y dŵr gwastraff a gynhyrchid gan safleoedd yn y CDLId. Os yw'r hawlenni yn dynnach na'r capasiti gweithredu presennol, defnyddir ymagwedd lliniaru maethynnau.

Daw'r rhaglen samplu yn GTDG Llandysul ac Adpar i ben ym mis Ionawr 2024. Os gwelir fod ansawdd y dŵr yn gydnaws â hawlen stop cefn y GTDG, gall datblygiadau a gynlluniwyd gysylltu. Os gwelir nad yw ansawdd y dŵr yn cydymffurfio bydd DCWW yn trefnu uwchraddiad mewn rhaglen AMP. Mae potensial hefyd ar gyfer cyfraniad gan ddatblygwr i gyflymu datblygiad os gwelir fod hwnnw'n ddewis hyfyw. Gellid asesu astudiaeth hyfywedd ar gyfer strategaeth lliniaru maethynnol trydydd parti megis gwlyptir wedi'i adeiladu er mwyn mynd i'r afael â'r llwyth ffosforws o ddŵr gwastraff ychwanegol o ddatblygiad newydd.

Mae Cyllideb Rheoli Maetholion Afon Teifi ac Astudiaeth Hyfywedd Gwlyptiroedd wedi adnabod 12 lleoliad gwlyptir posib yn nalgylch Afon Teifi o fewn ffiniau gweinyddol CSCe a CSP a chyfanswm eu harwynebedd yw 35.7ha. Byddai angen ymgynghori â'r perchnogion tir perthnasol cyn y gellir gwneud y dewisiadau hyn. Ffactor allweddol wrth ddod o hyd i safleoedd gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu posib yw'r gallu i dderbyn arllwysiadau yn rhwydd o'r canolfannau GTDG presennol, gan gynnwys agosrwydd at GTDGydd a chysiau dŵr derbyn. Mae hyn wedi mireinio cyfanswm y safleoedd gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu posib a gafodd eu harfarnu ymhellach. Ar gyfer pob safle cafodd yr arwynebedd (ha), math o berchennog tir, parth llifogydd, math o bridd, capasiti gwaredu Ff dangosol (CFF Kg/yr) a chostau cyfalaf dangosol eu hadnabod. Mae'r Nodyn Technegol yn cynnig crynodeb cyffredinol o'r gofynion o ran cyllideb faethynnol a gwlyptiroedd yn seiliedig ar y wybodaeth sydd ar gael ar y pryd. Byddai'r wybodaeth hon yn golygu y gellid graddoli unrhyw ddatblygiad newydd yn ôl y galw i sicrhau bod buddsoddiad a chyflawni GTDGydd gwell yn gydnaws â'r datblygiad i'w gyflawni / feddiannu fel rhan o'r CDLId.

Mae Prosiect PraM, dan arweiniad Cyngor Sir Ceredigion, wedi cyflwyno cynlluniau ar gyfer 2 wlyptir a gafodd eu hadnabod yn yr astudiaeth hon ac mae'n cynnig dadansoddiad manylach gan gynnwys trafodaethau gyda pherchnogion tir, gwirio a samplu'r tir a chynlluniau hyd at gyflwyno cais cynllunio. Hefyd, fel y dangoswyd yn Adran 7 y CGI, mae rhai datrysiadau eraill, ar raddfa lai ac yn llai costus efallai, megis DSNau wedi'u targedu,

plannu coed a chlustogfeydd integredig y gallai'r ACLlau fuddsoddi ynddynt ar draws dalgylch Afon Teifi i ysgafnhau'r baich ar y datrysiadau lliniaru mwy a mwy costus, megis gwlyptiroedd wedi'u hadeilad a gwelliannau i GTDGydd.

Mae Cyllideb Rheoli Maetholion Afon Teifi ac Astudiaeth Hyfywedd Gwlyptiroedd yn dangos fod yna, rhwng CSC, CSCe a CSP, ddigon o gyfleoedd gwlyptiroedd ar draws dalgylch Afon Teifi i gefnogi'r gwaith o gyflwyno a chyflawni'r CDLlau perthnasol. Gan fod y tri chynghor yn yr un cam o'r dyluniad hyfywedd cychwynnol, argymhellir fod y 12 safle gwlyptir ychwanegol hyn, ynghyd â'r 7 safle gwlyptir gerllaw Afon Teifi yn y CGI, yn cael eu hymchwilio ymhellach fel rhan o'r Cynllun Gweithredu manwl. Wrth ragdybio fod terfyn stop cefn 5 mg/l Ff ar waith mewn GTDGydd, mae arwynebedd y safleoedd gwlyptir posib a gafodd eu hadnabod i liniaru'r gyllideb CFF is yn ddigonol.

Mae'r CGI yn ceisio dangos fod y camau posib i osgoi effeithiau andwyol ar integriti'r ACA yn rhai y gellir eu 'cyflawni mewn gwirionedd'. Gyda'i gilydd, mae'r CGI a Chyllideb Rheoli Maetholion Afon Teifi ac Astudiaeth Hyfywedd Gwlyptiroedd yn dangos y gellir bodloni gofynion yr ARhC trwy liniaru maethynnol, ac fe ddangosir fod y CDLld yn faethynnol niwtral yn erbyn yr effeithiau datblygu cronol yn Nalgylch Afon Teifi:

- Yn seiliedig ar GDLI CSCe a fabwysiadwyd a CDLI2 CSP, caiff 592 o anheddau eu codi yng Ngheredigion a 61 annedd yn Sir Benfro, sy'n golygu cyfanswm ychwanegol o 190,808 litr o ddŵr gwastraff y dydd i Afon Teifi.
- Daw'r prif reswm am y gyllideb CFF oherwydd llwyth maethynnol ychwanegol o ddŵr gwastraff yn hytrach na newidiadau i ddefnydd tir.
- Daw'r rhan fwyaf o'r gyllideb faethynnol o CSCe (64%) ac mae CSC yn cyfrannu 27% a daw'r 9% sy'n weddill gan CSP.
- Fel dewis lliniaru dangosol, gellid gwrthbwysu'r gyllideb hon gyda thua 50.78ha o wlyptir wrth ddefnyddio'r stop cefn o hawlen 5 mg/l P, wedi'i rannu rhwng Ceredigion (32.9 ha), Sir Gaerfyrddin (13.54ha) a Sir Benfro (4.34 ha).
- Mae'r CGI wedi adnabod 36.5ha (27.4ha o ardal driniaeth effeithiol) ar hyd Afon Teifi o fewn ffiniau gweinyddol CSC. Mae'r nodyn technegol hwn wedi adnabod 35.7ha ychwanegol (26.78ha o ardal driniaeth effeithiol) yn CSCe a CSP, sef cyfanswm o 72.2 ha (54.18 ha o ardal driniaeth effeithiol). Mae arwynebedd y safleoedd gwlyptir posib a gafodd eu hadnabod i liniaru'r gyllideb CFF is yn ddigonol.
- Gellid cyflwyno datrysiadau eraill, allai fod ar raddfa lai ac yn rhatach, megis DSNau wedi'u targedu, plannu coed a chlustogfeydd integredig ar draws dalgylch Afon Teifi

i ysgafnhau'r baich ar y datrysiadau lliniaru mwy a mwy costus, megis gwlyptiroedd wedi'u hadeilad a gwelliannau i GTDGydd.

Mae'r Awdurdod Lleol wedi dod o hyd i ffordd o liniaru'r maethynnau a gynhyrchir gan y

GTDG	Perfformiad Ff presennol 2022	
	(mg/l)	Hawlen Amgylcheddol CNC (mg/l)
Nantgaredig	1.3	5
Adpar	1.7	Yn yr arfaeth
Llanybydder	2.2	0.5
Pencader	1.5	5
Drefach/Felindre	1.4	Yn yr arfaeth
Pentre-cwrt	3.1	Yn yr arfaeth
Llanbedr Pont		
Steffan	1.5	2.5
Capel Iwan	2.1	5
Llandysul	2.7	Yn yr arfaeth
Llanymddyfri	3.2	5
Ffair-fach	3	Yn yr arfaeth
Llangadog	2.4	5

CDLld ac mae asesiadau lefel uchel yn dangos fod y lliniariadau hyn yn ymarferol. Mae tabl polisi a lliniariadau gwlyptiroedd CNC yn cysylltu ac yn alinio'n uniongyrchol â'r dewisiadau lliniaru a nodwyd⁴⁰.

Tabl 9: Perfformiad presennol GTDG o gymharu â Hawlenni Amgylcheddol CNC

4. Camau a Gymerwyd yn Syth

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ysgwyddo rôl arweiniol gadarnhaol a rhagweithiol wrth geisio ymateb i'r canllawiau a gyhoeddwyd gan CNC ar ffosffadau mewn ACAoedd afonol gwarchodedig. Rydym wedi cydweithio gyda nifer o bartneriaid gwahanol a byddwn yn parhau i wneud hynny fel Awdurdod ac fel cyfrannwr rhanbarthol a chenedlaethol ar fater maethynnau.

Hyd yn hyn, rydym wedi cymryd y camau rhagweithiol canlynol:

- Sir Gaerfyrddin oedd y sir gyntaf yng Nghymru i ddatblygu Cyfrifiannell Cyllideb Faethynnau ac ar y cyd ag awdurdodau cyfagos fe'i datblygwyd erbyn hyn i ffurfio Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Gorllewin Cymru⁴¹. Mae Llywodraeth Cymru yn defnyddio'r offerynnau hyn i greu 'Cyfrifiannell Cyllideb Faetholion Cymru Gyfan'. Mae'r awdurdod hefyd wedi cynhyrchu Canllaw Cyfrifiannell⁴² ac Adolygiad Technegol⁴³ i gynorthwyo datblygwyr.
- Mae CSC yn rhan o BRhMau Gorllewin Cymru a chyfrannodd at sefydlu Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru⁴⁴. Mae CSC yn gweithio'n agos hefyd gyda'r Grŵp Cyngor Technegol (GCT) ar gyfer y BRhMau.
- CSC oedd yr awdurdod cyntaf i gynhyrchu dogfen Canllawiau Lliniaru Technegol i gynorthwyo datblygwyr i Sicrhau Niwtraliaeth Maetholion neu Well⁴⁵. Cafodd ei defnyddio gan CSC i gynhyrchu Canllawiau Lliniaru i Gymru.
- Mae CSC wedi cynhyrchu Cynllun Gweithredu Interim sy'n amlinellu'r llwybrau posib sydd ar gael i'r ALI i liniaru rhag unrhyw effeithiau negyddol ar amcanion cadwraeth rhywogaethau'r ACAoedd perthnasol, yn deillio o'i CDLld. Canlyniad hynny fyddai dangos sut ellir sicrhau cydymffurfiaeth gyda Rheoliadau Cynefinoedd.
- Mae CSC wedi sefydlu Bwrdd Rheoli Maetholion (BRhM) ar gyfer Afon Tywi. Mae'r bwrdd hwn yn gyfrifol am gynhyrchu Cynllun Rheoli Maetholion er mwyn gwella ansawdd y dŵr fel y gallwn adfer a chynnal statws cyflwr ffafriol ar ein hafonydd ACA, tra hefyd yn caniatáu datblygiadau o fewn y dalgylchoedd hyn heb gynyddu'r llwyth ffosfforws. Mae CSC hefyd yn aelodau o BRhMau Afon Teifi ac Afon Cleddau ac mae'n gweithio'n egniol a gydag eraill ar draws yr is ranbarth a Chymru.
- Mae CSC wedi mynd ati i ymgysylltu gyda nifer o randdeiliaid a Llywodraeth Cymru, gan wthio'n ddygn a chadarn am eglurder a chynnydd. Gan gydnabod yr arweinyddiaeth a ddarparwyd gan CSC, cawsom wahoddiad i'r Uwchgynhadledd Datrysiadau Ffosffad a gynhaliwyd ym mis Gorffennaf 2022⁴⁶ gan y Prif Weinidog yn

Sioe Amaethyddol Cymru. Ym mis Mawrth 2023, roedd cynrychiolwyr yr Awdurdod Lleol yn bresennol yn yr ail Uwchgynhadledd Datrysiadau Ffosffad⁴⁷, lle y bu'r awdurdod yn amlygu eto yr angen am Gynllun Gweithredu ar Lygredd Afonydd⁴⁸ ac am ddatblygu datrysiadau ar fyrder.

- Gofynnodd CSC i DTA Ecology gynhyrchu adroddiad ar ddefnyddio niwtraliaeth faethynnol o fewn dalgylch hyblyg – dalgylch SAC Afon Tywi. Mae'r cyngor a'r dehongliad a roddwyd gan DTA Ecology wedi darparu sylfaen gref ar gyfer sut all y Cyngor ymdrin â chaniatadau cynllunio a rheoli maetholion o fewn dalgylch hyblyg.

4.1. Cyfrifiannell Cyllideb Maethynnau Gorllewin Cymru

Cyngor Sir Caerfyrddin oedd y Cyngor cyntaf yng Nghymru i ddatblygu Cyfrifiannell Cyllideb Faethynnau. Fe'i datblygwyd erbyn hyn i ffurfio Cyfrifiannell Cyllideb Faethynnau Gorllewin Cymru⁴⁹. Cafodd ei datblygu i helpu datblygwyr i gyfrifo eu cyllideb ffosfforws ac mae'r Canllaw Cyfrifiannell yn gymorth ychwanegol yn hynny o beth⁵⁰.

Mae'r adroddiad a gynhyrchwyd gan Ricardo ar gyfer CSC yn cynnwys adolygiad technegol o fethodoleg cyfrifo cyllideb faethynnau⁵¹ i'w defnyddio ar draws y tri Awdurdod Cynllunio Lleol (ACLI) yng Ngorllewin Cymru. Mae'n anelu at ddarparu fframwaith cadarn a chasgliad o fewnbynnau y gellir eu defnyddio i bennu cyllideb faethynnau ar gyfer unrhyw ddatblygiad preswyl sy'n draenio i safle ag iddo ddynodiad Ewropeaidd sydd mewn cyflwr anffafriol neu'n agos at fod mewn cyflwr anffafriol oherwydd y llwyth ffosfforws.

Y cam cyntaf mewn asesiad priodol sy'n defnyddio niwtraliaeth faethynnol yw deall a fydd datblygiad yn creu mwy o fewnbynnau maethynnau ar safle Ewropeaidd. Mae hyn yn galw am gyfrif faint o faethynnau fydd datblygiad newydd yn eu creu, a elwir yn gyllideb faethynnau.

4.2. Canllawiau Technegol ar Liniaru Maethynnau

Rydym wedi cynhyrchu Canllawiau Lliniaru cynhwysfawr sy'n esbonio'r mathau mwyaf effeithiol o liniaru strategol a than arweiniad datblygwyr y gellid eu defnyddio yn Sir Gaerfyrddin⁵². Rhaid i unrhyw gamau lliniaru y bwriedir eu defnyddio i osgoi neu liniaru rhag effeithiau posib ffosfforws ddangos eu bod yn seiliedig ar y 'dystiolaeth orau sydd ar gael', y byddant yn effeithiol 'y tu hwnt i amheuaeth resymol', eu bod yn seiliedig ar ragamcaniadau sy'n 'rhagofalol', ac y gellir eu sicrhau 'byth bythoedd' (80-125 mlynedd)⁵³. Y nod yw sicrhau bod gan unrhyw ddatblygwr neu ymarferydd rheoli tir lwybr clir at liniaru rhag llygredd maethynnol.

Cwblhawyd adolygiad o'r dewisiadau lliniaru hyn er mwyn cynorthwyo'r prif randdeiliaid a gwneuthurwyr penderfyniadau i ddewis datrysiadau lliniaru priodol. Mae'r adolygiad hwn yn darparu manylion am y prosesau a'r ffactorau sy'n effeithio ar waredu ffosfforws ymhob un o'r datrysiadau. Ar gyfer pob datrysiad, darparwyd casgliad o ystyriaethau ymarferol. Bydd yr elfennau ymarferol hyn yn effeithio ar sut ddefnyddir y datrysiad a pham mor effeithiol allai fod. Bydd angen rhywfaint o waith cynnal a chadw a monitro hirdymor ar bob un o'r datrysiadau trwy gydol eu hoes. Rhestrwyd y prif ystyriaethau ar gynnal a chadw a monitro ar gyfer pob datrysiad.

.

4.3. Cynllun Gweithredu Interim a Chynllun Gweithredu

Mae Cyngor Sir Gaerfyrddin wedi comisiynu astudiaeth o'r dewisiadau lliniaru strategol posib lefel uchel gan gwmni ymgynghorol Arcadis. Prif nod y Cynllun Gweithredu Interim ar Niwtraliaeth Maethynnau yw cyflwyno cynllun gweithredu realistig a hyblyg ar gyfer rheoli ffosfforws ar raddfa dalgylch o fewn Afon Teifi ac Afon Tywi fel y gall CDLId Sir Gaerfyrddin ddangos cydymffurfiaeth gyda chanllawiau perthnasol CNC ar ACAoedd ffosfforws sensitif. Mae hon yn ddogfen esblygol a chaiff ei diweddarw wrth i amodau gwaelodlin gael eu hail-asesu. Bydd Cynllun Gweithredu Terfynol: *Strategaeth Lleihau Ffosfforws yn Afon Tywi ac Afon Teifi*, yn cadarnhau a symleiddio'r ymagwedd a ddefnyddir gan yr ALI.

Ymhlith y prif amcanion y mae'r adroddiad hwn yn rhoi sylw iddynt mae:

- Osgoi datblygiadau newydd yn yr ACAoedd a effeithir yn y lle cyntaf pan mai dyna'r cam mwyaf priodol;
- Cynhyrchu cyllideb CFF fras ar gyfer y CDLId (gan ddefnyddio'r data gorau sydd ar gael);
- Adnabod y prif elfennau ansicr allai effeithio ar y gyllideb CFF derfynol;
- Amlinellu'r datrysiadau lliniaru posib sydd ar gael i CSC i wrthbwysu'r gyllideb CFF;
- Dangos faint o liniaru sydd ei angen ar gyfer y datrysiadau a ystyrir fwyaf ymarferol / effeithiol tra'n cydnabod y prif elfennau ansicr; ac
- Amlinellu'r camau nesaf i gyflawni'r datrysiadau hyn a'r gwaith ychwanegol sydd ei angen, gan hyrwyddo dull graddol o'i gyflawni.

Mae'r ddogfen hon wedi adnabod safleoedd ar gyfer cyfleoedd gwlypdiroedd a pharthau clustogfeydd glannau afonydd ar Ddaliadau Tir y Cyngor (DTC), yn ogystal â safleoedd categori DCWW B1. Mae hefyd yn cynnwys y gyllideb faethynnau fras a gynhyrchwyd gan y CDLId, faint o hectarau o wlyptiroedd sydd eu hangen i liniaru rhag y gyllideb faethynnau honno a chost gweithredu DSN o'r fath.


Mae Tabl 10 yn dangos yr hierarchaeth o ddatrysiadau lliniaru a argymhellir y gellid eu defnyddio i liniaru rhag y llwyth maethynnol ychwanegol a gynhyrchir gan ddatblygiadau newydd yn Sir Gaerfyrddin yn nalgylchoedd draenio ACAoedd Afon Tywi ac Afon Teifi.

Mae dylunio, adeiladu a gofalu am wlyptiroedd wedi'u hadeiladu yn broses gymhleth. Yn ogystal â nodweddu ffynhonnell, maint, ansawdd ac amrywioldeb y mewnlif i wlyptir, mae llw o ystyriaethau eraill y mae'n rhaid edrych arnynt gan gynnwys pridd, topograffeg, risg


llefogydd, archaeoleg, gofynion cynnal a chadw tymhorol a thymor hir⁵⁴. Cynhaliwyd asesiad lefel-uchel yn yr adroddiad IAP ar draws dalgylchoedd Afon Tywi ac Afon Teifi i adnabod y lleoliadau mwyaf addas ar gyfer gwlyptiroedd wedi'u hadeiladu. Mae Ffigur 14 a 15 yn dangos y dewisiadau lliniaru gwlyptir ac eraill yn seiliedig ar natur y penderfynwyd eu bod yn hyfyw ar CLH. Bydd camau lliniaru'n cael eu gweithredu yn unol â'r taflwybr tai.

Dewis Lliniaru	Gwaredu Ff	Costau	Graddfa	Hyfywedd
GTDG Cryfach	Uchel	Uchel	Canolig	Canolig
Gwlypdiroedd wedi'u Hadeiladu	Canolig – Uchel	Canolig – Uchel	Canolig	Canolig
Rheoli Tir	Isel	Isel	Isel	Isel
DSN	Canolig - Isel	Isel	Isel	Canolig
Plannu Coed	Isel	Isel	Canolig	Canolig
Parthau Clustogfeydd Integredig	Canolig	Isel	Canolig	Canolig

Tabl 10: Hierarchaeth Datrysiaidau Lliniaru Maethynnau



Ffigur 8: Map yn dangos cyfleoedd gwlyptir a adeiladwyd ar Ddaliadau Tir y Cyngor.



Ffigur 9: Dewisiadau Lliniaru Maethynnau ar Ddaliadau Tir y Cyngor

~

4.4. Datganiad Tir Cyffredin

Mae goblygiadau canllawiau ffosffad CNC yn ymestyn y tu hwnt i ffiniau disgyblaeth gynllunio. O dan y dehongliad presennol o'r canllawiau, mae goblygiadau i dwf economaidd a chydlyniant cymdeithasol a diwylliannol. Mae'r dalgylchoedd ACA hefyd yn gadarnleoedd y Gymraeg. Fe nodir fod y canllawiau ffosffad yn gosod cyfyngiad amgylcheddol parhaol ar y Sir, a byddant yn ystyriaeth mewn unrhyw gynlluniau neu brosiectau i'r dyfodol.

Mae CSC wedi cynhyrchu Datganiad Tir Cyffredin (DTC) i fynd i'r afael â'r angen i gydweithio y tu hwnt i ffiniau dalgylchoedd yr ALI. Mae natur draws-sirol dalgylchoedd Ardaloedd Cadwraeth Arbennig (ACA) afonol yn golygu fod rhaid cael cydweithio rhwng Awdurdodau Lleol, CNC, DCWW a PCBB i fynd i'r afael â'r angen deddfwriaethol am niwtraliaeth faethynnol neu well ar gyfer CDLld Cyngor Sir Caerfyrddin (CSC). Mae'r DTC yn rhoi gwybod i'r arolygwyr beth yw safbwynt cytûn Awdurdodau Cynllunio Lleol, Cyfoeth Naturiol Cymru (CNC), a Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW), o ran yr angen na ddylai unrhyw ddatblygiad o fewn ACA Afon Teifi ac Afon Cleddau gyfrannu rhagor o fewnbynau maethynnol; a bod rhaid i unrhyw ddatblygiad o fewn ACA Afon Tywi gael eu monitro'n briodol gan yr ALI i sicrhau nad yw amodau hawlenni amgylcheddol mewn GTDG gwasanaethu yn cael eu torri.


4.5. Haen Risg Colli Maethynnau

Ym mis Mawrth 2022, cynhyrchodd Environment Systems Ltd asesiad o risg colli maethynnau ar draws Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro, a Cheredigion. Roedd hyn yn cynnwys mapio a modelu risg goferiad/colli maethynnau o dir ar draws Gorllewin Cymru. Cynhyrchwyd y wybodaeth ofodol hon i gefnogi camau ataliol a lliniarol ar golli maethynnau a chyfoethogi maethynnau ar draws y siroedd ac o'r herwydd y dalgylchoedd afon ACA sydd oddi fewn iddynt. Gwneir y gwaith modelu yn seiliedig ar gyfrifiadau yn ymwneud â ffactorau pridd a llethr yn ogystal â nodweddion defnydd tir a gorchudd tir. Mae cyfuniad o'r nodweddion hyn yn cynnig amcan o ba gategori sy'n cynhyrchu'r risg mwyaf o oferiad/colli maethynnau ar gyfer darn penodol o dir. Cynhyrchwyd yr allbynnau gofodol canlynol:


- Un rastr risg colli maethynnau cyffredinol ar eglurdeb 10m.
- Un set data rastr yn dangos y prif ffactor(au) risg ymhob lleoliad picsele 10 m, yn deillio o'r set data rastr risg colli maethynnau cyffredinol.

- Rastr dadansoddi newid yn dangos ardaloedd newid posib o ran risg colli maethynnau (yn seiliedig ar gynefinoedd yn unig) rhwng adeg casglu data cynefinoedd Cam 1, a 2020.
- Cyfleoedd ar gyfer creu strbedi clustogfa i liniaru rhag colli maethynnau.

Bwriedir defnyddio'r setiau data yn fan cychwyn ar gyfer adnabod ardaloedd risg ac ymweliadau safle i weld beth yw'r amgylchiadau ar y fferm, a thargedu camau ataliol a lliniarol effeithiol ar lwybrau maethynnau. Er enghraifft, yn *Ffigurau 10* ac *11* defnyddiwyd yr Haenen Risg Colli Maethynnau i asesu'r risg fwyaf o golli maethynnau o gwmpas y safleoedd CDLI yn Llangadog a Nantgaredig.



Ffigur 10: Haen Risg Colli Maethynnau Llangadog.



Ffigur 11:


Risg Colli Maethynnau Nantgaredig

Haen

4.6. Defnyddio GIS i Adnabod Safleoedd ar gyfer Strategaethau Lliniaru

Trwy drwydded Llywodraeth Cymru, gall CSC fanteisio ar ddata Planet lle y gellir lawr-lwytho a mewnfario data gofodol eglur-iawn ym meddalwedd GIS. Mae DataMaps Wales yn darparu haenau mapiau a ddefnyddiwyd i asesu cyfleoedd ar gyfer camau lliniaru rhag maethynnau. Bydd cyfuno'r haenau a'r setiau data yn rhoi dealltwriaeth fwy trylwyr i'r ALI o ble orau i dargedu camau lliniaru.


Gweithio gyda Phrosesau Naturiol (WWNP) Potensial Coetiroedd Glannau Afonydd yw amcan gorau CNC o leoliadau lle y gallai fod modd plannu coed ar orliffdroedd llai yn agos at lwybrau llif, ac a fyddai'n effeithiol i wanhau llifogydd (Ffigur 12)⁵⁵. Gweithio gyda Phrosesau Naturiol (WWNP) Potensial Coetiroedd Glannau Afonydd yw amcan gorau CNC o leoliadau lle y gallai fod modd plannu coed ar y gorlifdir, ac a fyddai'n effeithiol i wanhau llifogydd (Ffigur 13)⁵⁶. Pwrpas y set ddata yw cefnogi'r gwaith o gyfeirio at ardaloedd glannau afonydd nad oes coed arnynt yn barod. Er mai eu pwrpas yw lliniaru rhag llifogydd, bydd hyn o'i hanfod yn lliniaru rhag maethynnau. Mae'r wybodaeth a ddarperir yn seiliedig ar ddata wedi'i fodelu a data cyfyngiadau agored yn bennaf, ac mae felly'n ddangosol yn hytrach na phenodol. Bydd profi ar y ddaear yn cynnig mwy o eglurder ar effeithiolrwydd dulliau lliniaru o'r fath unwaith y mae mapio wedi adnabod safleoedd ar gyfer cyfleoedd posib.



Ffigur 12:

plannu coetiroedd torlannol CNC a chyffleodd clustogfa dorlannol Arcadis (Lleoliad Llanarthne).

Cyffleodd



Ffigur 13: Haen ychwanegol gweler y blychau melyn ar gyfer potensial dalgylch ehangach CNC ar gyfer plannu coetiroedd (Llanarthne).

5. Datrysiadau Ehangach ar gyfer Rheoli Maetholion

5.1. Strategaeth Rheoli Maetholion

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin yn cydnabod yr angen am a phwysigrwydd datblygu strategaeth ar gyfer sicrhau Niwtraliaeth faethynnol yn nalgylch Afon Teifi sy'n hwyluso'r Cynllun Datblygu Lleol Diwygiedig (CDLId) ac yn cyflwyno dull holistaidd o gyflawni buddion ehangach, gan roi ffocws arbennig ar DSN a gwelliannau amgylcheddol ehangach o fewn ACA Afon Tywi. Byddai'r strategaeth yn cael ei defnyddio i ymgysylltu â thrigolion a busnesau er mwyn esbonio pwysigrwydd rheoli maetholion ac amlinellu sut mae CSC yn cydweithio i sicrhau hynny.

Hefyd, bydd y Strategaeth yn adnodd defnyddiol i helpu amlinellu cyfleoedd buddsoddi posib gan drydydd partïon sy'n awyddus i fuddsoddi yn DSN. Bydd agwedd allweddol yn cysylltu strategaethau gweithredu eraill y mae CSC yn eu cyflawni er mwyn sicrhau ffordd gydlynol ac amlswyddogaethol o drefnu cynllunio a datblygu yn y sir. Bydd y ddogfen yn archwilio arferion gorau, technolegau a dulliau blaengar o reoli maethynnau ac yn amlygu mentrau effeithiol ac effeithlon. Bydd yn ystyried elfennau cost lefel uchel ar gyfer strategaethau lliniaru rhag maethynnau, y potensial ar gyfer cyfraniadau gan ddatblygwyr a chronni buddion a chyllido cyfunol. Caiff y gwaith o weithredu a chyflawni hyn ei gofnodi trwy ddyrannu rolau a chyfrifoldebau, llinell amser benodedig, monitro a gwerthuso cynnydd a rheoli risg a newid.

Bydd y strategaeth yn atgyfnerthu ymgynghoriadau cyfredol gyda Dŵr Cymru Welsh Water (DCWW) a Chyfoeth Naturiol Cymru (CNC) i gadarnhau'r mathau o gamau DSN a gefnogir.

5.2. Byrddau Rheoli Maetholion

Sefydlwyd Byrddau Rheoli Maetholion Afon Cleddau, Afon Tywi ac Afon Teifi (BRhMau) i ddatblygu a gweithredu Cynlluniau Rheoli Maetholion ar gyfer y 3 afon, trwy arfarnu'r dewisiadau a gynigiwyd gan GCT (Grŵp Cyngor Technegol) a Grŵp Rhanddeiliaid, y ddau'n gweithredu ar draws isranbarth y 3 dalgylch. Sefydlwyd y BRhMau yn 2022, ac mae'r GCT a'r Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd newydd gael eu ffurfio.

Mae'r Bwrdd Rheoli Maetholion (BRhM) yn gyfrifol am adnabod a chymryd camau sy'n cyflawni'r targed cadwraeth ffosfforws ffafriol afon sy'n cael ei hystyried yn ACA, tra hefyd yn cyflawni anghenion cymdeithasol-economaidd y cymunedau sy'n ei hamgylchynu. Ffurfiwyd tri BRhM yng Ngorllewin Cymru; BRhM Afon Tywi, BRhM Afon Cleddau a BRhM Afon Teifi.

Amcanion y BRhMau fydd cynnal adolygiadau a dadansoddiadau annibynnol o bolisi cyfredol, ynghyd â'r dystiolaeth dechnegol a gwyddonol ddiweddaraf ar reoli gwrtaith a maethynnau. Byddant hefyd yn ystyried yr heriau niferus ynghylch rheoli maetholion, ac yn datblygu argymhellion ar yr ymagweddau polisi gorau ar gyfer cyfyngu ar lygredd maethynnol.

Mae'r BRhMau yn anelu at wella rheolaeth o'r tir a thrwy hynny wella ansawdd dŵr, fyddai'n arwain at ddiogelu bioamrywiaeth naturiol a rheoli adnoddau yn gynaliadwy. Bydd y BRhMau yn ystyried mathau gwahanol o ymyriadau gan lywodraethau, gan gynnwys gwybodaeth, cyngor a chanllawiau, cymorth ariannol, offerynnau cyllidol, deddfwriaeth, a gorfodaeth a ddarparwyd ar un adeg gan Lywodraeth Cymru. Ni chafodd yr amodau ar gyfer hyn eu cytuno a'u sefydlu eto. Bydd y BRhMau yn ymgysylltu â byrddau seinio yn y sector, gan gynnwys cynrychiolwyr diwydiant a rhanddeiliaid allweddol eraill, i sicrhau bod gan argymhellion werth ymarferol.

5.3. Grŵp Cyngor Technegol

Rôl y Grŵp Cyngor Technegol (GCT) isranbarthol yw cefnogi BRhM Afon Tywi, BRhM Afon Teifi a BRhM Afon Cleddau. Bydd y GCT yn gyfrifol am gasglu, coladu, a dadansoddi data a ddefnyddir i gyflwyno dewisiadau i'w cymeradwyo gan y Byrddau. Bydd y grŵp GCT yn cydweithio i gynhyrchu Cynllun Rheoli Maetholion ar gyfer pob dalgylch.


Bydd y GCT yn darparu sail tystiolaeth ar gyfer y BRhMau, wedi'i gasglu oddi wrth ystod eang o arbenigwyr mewn meysydd ymchwil a gwaith perthnasol. Mae gan bob aelod gefndir cryf yn un neu ragor o'r pynciau canlynol: gwyddor pridd, gwyddor amaethyddol, modelu maethynnau, prinder ffosfforws, metreg effeithlonrwydd defnyddio adnoddau, gwyddor anifeiliaid, hydroleg, ecoleg, ôl-troedio maethynnau, dulliau asesu effaith ar ewtroffeiddiad, asideiddiad, ansawdd dŵr ac ansawdd awyr.

Rhyngweithiad y GCT gyda'r BRhM

Mae'r GCT yn atebol i'r BRhMau, a ddylai sicrhau y caiff y camau a nodir eu cyflawni. Dylai'r BRhMau ddiffinio amcanion y GCT, gosod yr amserlen ar gyfer eu cyflawni a dylent wneud y GCT yn atebol am eu cyflawni. Gall BRhMau newid Cadeiryddion GCTiau neu gau GCTiau yn gyfan gwbl os nad ydynt yn ystyried fod y camau angenrheidiol yn cael eu cymryd neu os gyflawnwyd eu pwrpas.

Rhyngweithiad y GCT gyda'r Grŵp Rhanddeiliaid

Bydd Grŵp Rhanddeiliaid is-ranbarthol (GRh) yn bwydo gwaith y BRhMau trwy gadeirydd y GRh. Bydd hwn yn cynnwys sefydliadau ac unigolion a chanddynt ddiddordeb yn neilliannau'r Cynlluniau Rheoli Maetholion. Bydd cadeirydd y GRh yn cael gwahoddiad i fynychu cyfarfodydd y GCT lle'n briodol. Bydd cadeirydd y GCT yn mynychu cyfarfodydd y Grŵp Rhanddeiliaid. Trwy wneud hyn, gellir annog proses o rannu gwybodaeth, cefnogi a dysgu. Bydd cadeirydd y GRh (a etholir gan y Grŵp Rhanddeiliaid mewn trefn gylchynol) yn adrodd ar bryderon, cynnydd, a dyheadau yng nghyfarfodydd chwarterol y BRhM.



Ffigur 14: Sut mae'r BRhMau yn rhyngweithio gyda'r GTY a'r Grŵp Rhanddeiliaid

5.4. Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru

Bydd Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru yn darparu'r dylanwad a'r gefnogaeth hon a bydd yn gweithredu'n niwclews canolog ar gyfer crynhoi at ei gilydd linellau cyfathrebu ar fater maethynnau. Ar yr 31ain Mai 2023, cynhaliodd CSC gyfarfod cyntaf Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru. Cynhaliwyd sesiynau dilynol ar-lein trwy Zoom, wedi'u hwyluso gan Rwydwaith Cyd-gynhyrchu Cymru. Cafodd gobeithion, dymuniadau, anghenion, llinellau cyfathrebu, datganiadau cenhadaeth eu trafod a'u sefydlu gan y mynychwyr.



Ffigur 15: Digwyddiad Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru cyntaf erioed 21ain Mai 2023, Canolfan Halliwell, Caerfyrddin.

5.5. Astudiaeth Masnachu Credydau Maethynnau

Un ffordd o gymell lliniaru rhag maethynnau trwy DSN yw sefydlu marchnadoedd newydd sy'n meintiol'r gwerth. Mae'r ALI wedi edrych ar botensial marchnad masnachu credydau maethynnau fyddai'n cymell perchnogion tir i gymryd camau er mwyn lliniaru Ff. Trwy fasnach credydau maethynnau, gallai perchnogion tir gynhyrchu credydau lleihau maethynnau y gellid eu gwerthu a'u prynu gan ddatblygwyr i hwyluso datblygiadau maethynnol niwtral o fewn dalgylchoedd ACAoedd sy'n methu.

Mae Cyngor Sir Caerfyrddin ar ran partneriaid eraill rhaglen EARTH, a ariennir trwy Gronfa Gymdeithasol Ewrop WEFO wedi edrych ar ddichonoldeb System Masnachu Credydau Maethynnau (SMCM) ar gyfer De Orllewin Cymru. Ym mis Ionawr 2023, comisiynwyd Arup a'u partneriaid consortiwm i gwblhau prosiect gydag awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Castell-nedd Port Talbot, Sir Benfro, ac Abertawe i:

- Asesu dichonoldeb System Masnachu Credydau Maethynnau i drefnu lliniaru rhag maethynnau yn rhanbarth De Orllewin Cymru;
- Datblygu pecyn gwaith sy'n cyflwyno arfer gorau o ran dyluniad marchnad, llywodraethu, a gweithredu SMCM; ac
- Adnabod y camau nesaf sydd eu hangen i gyflwyno SMCM yn y Rhanbarth.
- Gwelwyd fod SMCM yn hyfyw yn gyffredinol yn unol â'r fframwaith ar gyfer marchnadoedd amgylcheddol integriti uchel a ddatblygwyd gan Fenter Cyllido Adferiad Natur y DG.

6. Datganiad Clo

Mae'r Papur Pwnc hwn yn cyflwyno ymagwedd integredig ar gyfer ceisio cynorthwyo gydag ac ymateb i faterion yn effeithio'r ACAoedd afonol. Mae'n adlewyrchu'r dystiolaeth a'r dogfennau ategol a baratowyd ar gyfer y CDLId a darpariaethau polisi CCH4: Ansawdd Dŵr a Diogelu Adnoddau Dŵr a gyflwynir yn yr 2il GDLI Adneuo Diwygiedig. Mae'n ceisio cefnogi cynnydd y Cynllun hyd at gael ei fabwysiadu fel rhan o sail tystiolaeth y CDLId. Mae'n ceisio cefnogi'r dystiolaeth a dogfennau ategol y Cynllun trwy ddangos na fydd y Cynllun yn creu effaith andwyol ar integriti ACAoedd afonol ffosfforws sensitif. Yn y dalgylch hydrolegol a ddynodwyd ar gyfer ACAoedd afonol bydd angen i ddatblygiadau sy'n creu arllwysion dŵr gwastraff ddangos nad oes unrhyw gynnydd mewn lefelau ffosfforws yn yr ACA. Gellir gwneud hynny trwy gymryd camau lliniaru a chanllawiau cynllunio atodol cysylltiol. Lle y mae tystiolaeth yn dangos y gellir osgoi effeithiau andwyol ar integriti ACAoedd afonol, rhaid eu cytuno gyda'r ALI a CNC fesul un ac un.

Mae'r papur hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd yn syth gan yr ALI a sut maen nhw'n cyfrannu'n uniongyrchol at allu cyflawni'r CDLId. Defnyddiwyd y Gyfrifiannell Cyllideb Maethynnau i gyfrifo llwyth CFF y CDLId. Mae'r CGI a'r CG yn asesu ac awgrymu camau yn seiliedig ar hyfywedd ac ymarferoldeb amgylcheddol ac ariannol. Er bod gan y GTDG sy'n gwasanaethu'r safleoedd o fewn y CDLId y capasiti i wneud hynny, mae'r Cyngor wedi ac yn parhau i ffafrio dewis DSN ar CLH ac mae wedi chwilio am gyfleoedd cydweithio posib ar y cyd â DCWW.

Gwneir cyfeiriad llawn at Atodiad C yr Atodiad i'r ARhC sy'n manylu ar y camau lliniaru penodol ar gyfer dyrannu safleoedd. Cyfeirir hefyd at y CGI a'r Canllawiau ar gyfer dewisiadau lliniaru Ff. Mae'r CGI yn dangos cydymffurfiaeth â'r Rheoliadau trwy amlinellu camau lliniaru (Datrysiaid Seiliedig ar Natur yn bennaf) fydd yn cynnal Niwtraliaeth

faethynnol (NM) ac yn atal unrhyw effeithiau andwyol ar amcsnion cadwraeth ACAoedd afonol.


7. Camau Nesaf

- Mesur yr hyblygrwydd ar gyfer ACA Afon Tywi, tra bod hawlenni GTDG yn cael eu hadolygu. Bydd hyn yn galluogi'r awdurdod i gydbwyso'r angen am dai fforddiadwy, anghenion cymdeithasol, economaidd ac amgylcheddol y sir a dalgylch yr afon.
- Parhau i weithio'n adeiladol gyda'r sector defnydd tir gwledig a'i gynrychiolwyr i ddeall yr heriau a'r ffactorau sy'n atal lliniaru rhag maethynnau.
- Defnyddio a chefnogi Grŵp Rhanddeiliaid Afonydd Gorllewin Cymru mewn prosiectau gwyddoniaeth y bobl sy'n cynnig budd i'r dyfrffyrdd yn Sir Gaerfyrddin a dalgylchoedd ei siroedd cyfagos.
- Chwilio am gyfleoedd cyllido ar gyfer cymryd camau lliniaru rhag maethynnau. Defnyddio grant Llywodraeth Cymru a gyflwynwyd yn rhanbarthol i Fyrddau Afon Tywi, Afon Teifi ac Afon Cleddau.
- Fel aelodau o BRhM Afon Tywi, BRhM Afon Cleddau a BRhM Afon Teifi, gweithio'n agos â'r GCT i gynhyrchu cynlluniau rheoli maetholion (CRhM) ar gyfer dalgylchoedd pob un o'r afonydd. Caiff Cylch Gorchwyl (CG) y Byrddau eu cytuno ar yr 16eg Tachwedd. Efallai y bydd templed y CRhM yn golygu rhannu camau categori 1 (maethynnol niwtral) a chategori 2, (camau i fynd i'r afael â chydymffurfiaeth ACAoedd). Cynorthwyo'r BRhM i greu gwefan ryngweithiol i gael mynediad i 'Gynllun Rheoli Maetholion Byw', monitro amser go iawn a gwybodaeth am y grŵp rhanddeiliaid yn ogystal â graffeg, gan gynnwys animeiddiadau gwybodaeth.
- Parhau i gasglu a chwilio'r sail tystiolaeth i sicrhau bod pob penderfyniad ar y dystiolaeth orau sydd ar gael. Adolygu Cynlluniau Gweithredu cyfredol CNC ar gyfer ACAoedd (CMP, PIP, Safle) ar gyfer y 3 dalgylch fel rhan o'r sail tystiolaeth. Mae CNC yn cynhyrchu cronfa ddata a ddata amgylcheddol gwaelodlin a chofnodion gweithgarwch CNC;
- Defnyddio adnoddau a ddatblygwyd sydd ar gael ar wefan CSC. Mae hyn yn cynnwys yr holl ganllawiau technegol a'r gyfrifiannell cyfrifo cyllideb i gynorthwyo datblygwyr i gyflwyno datrysiadau ar fater datblygiadau maethynnol niwtral.
- Cymryd rhan yng ngweithgorau'r GCT is-ranbarthol. Er enghraifft, gweithgor Blaengaredd GIS ac Amaethyddol ar gyfer Afon Tywi.
- Cynhyrchu Cynllun Gweithredu ar adnabod safleoedd Adnabod, cyfrifiadau cyllideb faethynnol ar gyfer y CDLld, sawl hectar o DSN sydd eu hangen a chost gosod a gofalu am liniariadau o'r fath.

- Cynhyrchu Strategaeth Rheoli Maetholion i goladu'r holl strategaethau sy'n cael eu cyflawni o fewn yr ALL, gan glymu at ei gilydd weledigaeth ac awydd cyffredin i greu buddion traws strategaethol.
- Sefydlu ffrwd gwaith GIS o fewn y BRhMau lle y caiff Gorllewin Cymru gyfan ei fapio dargedu gwaith lliniaru orau yn yr ardaloedd mwyaf bregus er mwyn creu gwelliannau amgylcheddol ehangach a chyflymu'r broses o allu cyflawni datblygiadau ac adeiladu tai mawr eu hangen.
- Cynorthwyo'r BRhMau i sefydlu monitro aml-barmedr amllder uchel mewn afonydd.

7.1. Ystyriaethau i'r Dyfodol

Mae CNC wedi cynnal adolygiad o ansawdd dŵr yn ardaloedd ACA Morol. Dynodwyd Bae Caerfyrddin a'r Aberoedd yn ACA ac mae'n safle morydol mawr, sy'n cwmpasu aberoedd Afonydd Lluchwr, Tâf ac Afon Tywi (aberoedd gwastadeddau arfordirol) a'r Gwendraeth (aber a ffurfiwyd gan far). Mae'r pedwar aber yma'n ffurfio un uned ffwythiannol o gwmpas Cilfach Tywyn. Byddai'r cyfyngiadau amgylcheddol a roddid ar unrhyw ddatblygiad yn yr ardal fwyaf poblog hon o'r Sir yn cael effaith arwyddocaol sy'n fwy na'r her y mae'r cyfyngiadau ACAoedd afonol yn eu creu. Nid yw CNC wedi datgelu dyddiad cyhoeddi'r canllawiau ar gyfer ACAoedd Morol; fodd bynnag, bydd y Cyngor yn parhau i fonitro'r sefyllfa a gweithio gyda phartneriaid.



8. Cyfeiriadau

- ¹ **Johnes, P. J., Heathwaite, L., Spears, B., Brownlie, W., et al, 2022:** Phosphorus and water quality. Our Phosphorus Future: Towards global phosphorus sustainability. Brownlie, W. J., Sutton, M. A., Heal, K. V., Reay, D. S. & Spears, B. M. (eds.). UK Centre for Ecology and Hydrology, Edinburgh
- ² [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)
- ³ [Cofrestr gyhoeddus - Porth Cwsmeriaid \(naturalresources.wales\)](https://naturalresources.wales)
- ⁴ [west-wales-nutrient budget calculator.xlsx \(live.com\)](https://live.com)
- ⁵ [nutrient-mitigation-options-technical-review-west-wales.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales)
- ⁶ [Polisi Cynllunio Cymru - Rhifyn 11 \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)
- ⁷ [htCFf://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1232891/nutrient-mitigation-options-technical-review-west-wales.pdf](https://www.carmarthenshire.gov.wales/media/1232891/nutrient-mitigation-options-technical-review-west-wales.pdf)
- ⁸ [nutrient-budget-calculator-guidance-west-wales.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales)
- ⁹ Hardin, G. (1968). The Tragedy of the Commons. *Science*, 162(3859), 1243–1248.
[htCFf://www.jstor.org/stable/1724745](https://www.jstor.org/stable/1724745)
- ¹⁰ [Safleoedd gwarchodedig \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)
- ¹¹ [Rhywogaethau blaenoriaeth yn Sir Gaerfyrddin \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)
- ¹² [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015: canllawiau | LLYW.CYMRU](https://canllawiau.llyw.cymru)
- ¹³ [Placemaking Charter - Design Commission for Wales \(dcfw.org\)](https://dcfw.org)
- ¹⁴ [Carmarthenshire County Council / Cyngor Sir Gâr - Second Deposit LDP \(oc2.uk\)](https://oc2.uk)
- ¹⁵ [Water Framework Directive \(europa.eu\)](https://europa.eu)
- ¹⁶ [SAC Rivers: Source Apportionment Reports | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](https://dwrcymru.com)
- ¹⁷ **Zhang, Y., Collins, A.L., Murdoch, N., Lee, D., Naden, P.S., 2014:** Cross sector contributions to river pollution in England and Wales: updating waterbody scale information to support policy delivery for the Water Framework Directive. *Environ. Sci. Policy* 42, 16–32.
- ¹⁸ **Kahneman, D., 2003:** Maps of bounded rationality: psychology for behavioural economics. *Am. Econ. Rev.* 93 (5), 1449–1475.
- ¹⁹ **Inman, A., Winter M., Johnes P., et al. 2018:** An exploration of individual, social and material factors influencing water pollution mitigation behaviours within the farming community.
- ²⁰ [htCFf://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A62017CA0293](https://eur-lex.europa.eu/legal-content/EN/TXT/?uri=CELEX%3A62017CA0293)
- ²¹ [EUR-Lex - 62017CA0293 - EN - EUR-Lex \(europa.eu\)](https://europa.eu)
- ²² [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws](https://llyw.cymru)
- ²³ [Map newydd | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](https://llyw.cymru)
- ²⁴ [compliance-assessment-of-welsh-sacs-against-phosphorus-targets-final-v10.pdf \(cyfoethnaturiol.cymru\)](https://cyfoethnaturiol.cymru)
- ²⁵ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Egwyddorion niwtraliaeth o ran maethynnau mewn perthynas â datblygiadau neu drwyddedau gollwng dŵr arfaethedig](https://llyw.cymru)
- ²⁶ [LIFE 3.0 - LIFE Project Public Page \(europa.eu\)](https://europa.eu)
- ²⁷ [Rheoliadau'r Amgylchedd Dŵr \(Y Gyfarwydddeb Fframwaith Dŵr\) \(Cymru a Lloegr\) 2017 \(legislation.gov.uk\)](https://legislation.gov.uk)
- ²⁸ [Cyfoeth Naturiol Cymru / Mathau o ardaloedd o dir a môr gwarchodedig](https://llyw.cymru)
- ²⁹ [JNCC - Adviser to Government on Nature Conservation revised-da-2022-final.pdf \(gov.wales\)](https://gov.wales)
- ³⁰ [https://naturalresources.wales.gov.uk/guidance-and-advice/business-sectors/planning-and-development/our-role-in-planning-and-development/advice-to-planning-authorities-for-planning-applications-affecting-phosphorus-sensitive-river-special-areas-of-conservation/?lang=cy](https://naturalresources.wales)
- ³¹ [SAC Rivers: Source Apportionment Reports | Dŵr Cymru Welsh Water \(dwrcymru.com\)](https://dwrcymru.com)
- ³² [Deddf yr Amgylchedd \(Cymru\) 2016: cwestiynau cyffredin | LLYW.CYMRU](https://llyw.cymru)
- ³³ [htCFf://www.gov.wales/sustainable-farming-scheme](https://www.gov.wales/sustainable-farming-scheme)
- ³⁴ [https://www.llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-lygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-fermwyr](https://llyw.cymru/rheoliadau-adnoddau-dwr-rheoli-lygredd-amaethyddol-cymru-2021-canllawiau-ar-gyfer-fermwyr)
- ³⁵ **Masso, C., Zhang, F., Adhya, T., Blackwell, M., Macintosh, K., Johnes, P. et al, 2022:** Opportunities for better phosphorus use in agriculture. Our Phosphorus Future: Towards global phosphorus sustainability. Brownlie, W. J., Sutton, M. A., Heal, K. V., Reay, D. S. & Spears, B. M. (eds.). UK Centre for Ecology and Hydrology, Edinburgh

- 37 [Agenda for County Council on Wednesday, 9th March, 2022, 10.00 am \(llyw.cymru\)](#)
- 38 [Papur Sefyllfa Medi 2021 \(llyw.cymru\)](#)
- 39 [Cyfoeth Naturiol Cymru / Cyngor i awdurdodau cynllunio ar gyfer ceisiadau cynllunio sy'n effeithio ar afonydd mewn Ardaloedd Cadwraeth Arbennig sy'n sensitif i ffosfforws](#)
- 40 <https://naturalresources.wales/guidance-and-advice/environmental-topics/water-management-and-quality/constructed-wetlands/constructed-wetlands-for-improving-water-quality/?lang=cy>
- 41 [west-wales-nutrient budget calculator.xlsx \(live.com\)](#)
- 42 [nutrient-budget-calculator-guidance-west-wales.pdf \(gov.wales\)](#)
- 43 [nutrient-budget-calculator-technical-review.pdf \(gov.wales\)](#)
- 44 [Ymunwch â Grŵp Rhanddeiliaid Bwrdd Rheoli Maetholion Gorllewin Cymru \(llyw.cymru\)](#)
- 45 [nutrient-mitigation-options-technical-review-west-wales.pdf \(gov.wales\)](#)
- 46 [Y Prif Weinidog yn cynnal cynhadledd i drafod llygredd mewn afonydd | LLYW.CYMRU](#)
- 47 [Datganiad Ysgrifenedig: Yr Ail Uwchgynhadledd Llygredd Afonydd \(20 Mawrth 2023\) | LLYW.CYMRU](#)
- 48 [Cynllun gweithredu uwchgynhadledd llygredd afonydd | LLYW.CYMRU](#)
- 49 [west-wales-nutrient budget calculator.xlsx \(live.com\)](#)
- 50 [nutrient-budget-calculator-guidance-west-wales.pdf \(gov.wales\)](#)
- 51 [nutrient-budget-calculator-technical-review.pdf \(gov.wales\)](#)
- 52 [nutrient-mitigation-options-technical-review-west-wales.pdf \(gov.wales\)](#)
- 53 [Rheoliadau Cadwraeth Cynefinoedd a Rhywogaethau 2017 \(legislation.gov.uk\)](#)
- 54 <https://storymaps.arcgis.com/collections/6543a2f8de0348f683187ff268a79687?item=3>
- 55 [Potensial Coetir ar Lannau Afon WWNP - Cymru | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#)
- 56 [Potensial Plannu Coetir ar Orlifdir WWNP - Cymru | MapDataCymru \(llyw.cymru\)](#)